
**O ran cais gan Gyngor Cymuned Pentir i gofrestru llwybr troed cyhoeddus ger Treborth Hall, Treborth.**

Gwnaf i, Menna Williams o 8 Glan Menai, Treborth, Bangor, Gwynedd y datganiad hwn i gefnogi cais i gofrestru llwybr troed cyhoeddus fel y disgrifir uchod a dywedaf fel a ganlyn:

1. Rwy'n gyfarwydd â'r llwybr a hawlir, fel y dangosir gan linell goch ar y cynllun.
2. Mae'r llwybr troed hwn yn cychwyn wrth y llwybr 'coastal path' ac mae'n parhau drwy fynd drwy'r gerddi botanegol. Wrth i chi adael y gerddi botanegol mae'r trac yn troi i'r chwith i fynd dros bont i groesi'r trac rheilffordd. Mae'r trac tarmac yn parhau yn syth ymlaen nes bod tai ar y chwith. I'r dde o'r trac mae darn o mawr o wair gyda choeden fawr arno. Parhewch ar y tarmac lle gwelwch hen ysgol Treborth ger y tai. Y tu ôl i'r goeden hon, mae trac arall yr oeddwn wedi'i ddefnyddio o'r blaen ac sydd bellach wedi tyfu'n wyllt ac nid oes posib ei ddefnyddio bellach. Ar ôl mynd heibio hen ysgol Treborth mae'r trac yn mynd heibio'r clwb pêl-droed, i lawr y lôn fach nes cyrraedd y brif ffordd wrth ymyl hen dafarn Drovers.
3. Rwyf wedi cerdded y llwybr hwn ers tua Gorffennaf 1990, 32 mlynedd yn ôl ac rwy'n cofio hyn gan mai dyma'r flwyddyn priodais. Roeddwn i'n arfer mynd a fy mhlant ffordd yma pan oeddent yn ifanc. Nawr maen nhw i gyd wedi tyfu i fyny ac yn defnyddio'r llwybr ar eu pen eu hunain.
4. Cyn i mi gael fy herio yn 2021, byddwn yn defnyddio'r llwybr troed hwn tua unwaith yr wythnos, neu ddwy neu dair gwaith yr wythnos. Roedd fy nghyfle i gerdded y llwybr troed yn dibynnu ar fy shifft yn fy ngwaith. Byddwn yn mwynhau mynd â'r ci am dro y ffordd hon gan ei fod yn daith braf i'w wneud. Dro da a fyddai'n cymryd 45 munud o ble rydw i'n byw.
5. Byddwn yn cerdded y ffordd hon fwy yn ystod yr haf a llai yn ystod y gaeaf oherwydd ei fod yn tywyllu'n gynt.
6. Ers ymddygiad bygythiol perchnogion newydd hen ysgol Treborth, dwi bron byth yn ei ddefnyddio. Byddwn ond yn ei ddefnyddio nawr os oeddwn i'n gwybod bod rhywun yn mynd gyda mi fel fy ngŵr neu fy nheulu, er mwyn fy niogelwch.
7. Rwyf wedi sylwi ar arwyddion bach o gwmpas sydd yn Saesneg yn unig. Doeddwn i ddim yn gallu gweld unrhyw arwyddion Cymraeg, felly wnes i ddim cymryd llawer o sylw a parhau i gerdded. Dim ond ers i'r perchnogion newydd gymryd drosodd yr hen ysgol mae'r arwyddion wedi ymddangos. Cyn hyn nid oedd unrhyw arwydd wedi ymddangos. Mae'r arwyddion presennol ychydig dros y bont rheilffordd cyn cyrraedd hen ysgol Treborth.
8. Yn yr haf yn 2021, roeddwn i'n cerdded ar fy mhen fy hun heibio i hen ysgol Treborth pan waeddodd dyn arna' i am gerdded y llwybr troed gan ddweud "This is private property" "Dont come this way again". Ers hyn, dwi bron byth yn ei ddefnyddio gan nad ydw i eisiau cael trafferth o fynd heibio. Mae fy merch hefyd wedi cael ei herio yn 2020 wrth iddi gerdded heibio ar ei phen ei hun heb fod yn ymwybodol o'r drafferth y byddai'n ei hwynebu.

**Dyddiad:** 23 Awst 2020

**Llofnod:** [redacted]




Hawl tramwy cyhoeddus honedig /
Alleged public right of way

Llwybrau troed cyhoeddus presennol /
Existing public footpaths

**Enw / Name:**

**Llofnod / Signature:** [redacted]

**Dyddiad / Date:** 23 Awst 2022

# Llwybr Cyhoeddus Honedig / Alleged Public Footpath
# Treborth, Bangor, LL57 2RX. Cyf. Grid / Grid Ref - SH5570

0 30 60 120 Medr / metre

© Hawlfraint y Goron a hawliau ddata 2021 Arolwg Ordnans 100023387
© Crown copyright and database rights 2021 Ordnance Survey 100023387

N E S W


**O ran cais gan Gyngor Cymuned Pentir i gofrestru llwybr troed cyhoeddus ger Treborth Hall, Treborth.**

Gwnaf i, Richard Williams o 20 Lon y Bryn, Bangor, Gwynedd y datganiad hwn i gefnogi cais i gofrestru llwybr troed cyhoeddus fel y disgrifir uchod a dywedaf fel a ganlyn:

1. Rwy'n gyfarwydd â'r llwybr a hawlir, fel y dangosir gan linell goch ar y cynllun.
2. Mae'r llwybr yn cychwyn ger y brifysgol ac yn parhau ymlaen dros yr hen bont reilffordd. O'r fan hon, gallwch unai fynd ar y ffordd darmac o flaen y tai ar y chwith neu ar y trac sy'n arwain drwy'r coed ar y dde. Fel arfer byddwn i'n mynd ar y trac sy'n rhedeg drwy'r coed ond os yw'n wlyb ac yn fwdlyd, byddwn yn cerdded ar y tarmac. Mae'r llwybr wedyn yn dod heibio o flaen Ysgol Treborth ac yna byddwch yn parhau i fynd heibio Clwb Pêl-droed Penrhosgarnedd. Mae'r llwybr yn parhau i lawr ychydig a byddwch yn gweld mynedfa y llwybr troed arall. O'r ffordd mae giât sydd wedi'i chloi ond mae man pasio ar yr ochr i gerddwyr. Mae'r ffordd yn parhau i'r brif ffordd sy'n gyfagos i hen dafarn y Drovers.
3. Dechreuais ddefnyddio'r llwybr am y tro cyntaf 30 mlynedd yn ôl ym meddwl yr 1980au. Byddwn yn defnyddio'r llwybr ddwywaith yr wythnos pan oedd fy mab yn chwarae pêl-droed yng nghlwb pêl-droed Penrhosgarnedd. Byddai'n cael hyfforddiant pêl-droed a gemau yno. Weithiau byddem yn defnyddio'r llwybr i fynd am dro hefyd a byddem yn mynd ddwywaith y mis i'r pwrpas yma.
4. Rwyf wedi rhoi'r gorau i gerdded y llwybr hwn ers misoedd bellach oherwydd ymddygiad perchnogion newydd Ysgol Treborth. Byddai'n well gennyf gerdded i ffwrdd o'r ysgol yn hytrach na chael trafferth mynd heibio. Mae'n rhaid fy mod wedi dechrau cerdded llai fel hyn pan oedd y perchnogion newydd wedi prynu'r lle.
5. Cefais fy herio am y tro cyntaf tua'r haf, 4 blynedd yn ôl. Mae'n rhaid bod hyn wedi digwydd yn ystod dechrau'r pandemig covid. Y perchennog newydd ysgol Treborth sydd wedi fy herio am ddefnyddio'r llwybr. Roedd y dyn hefyd yn fy ffilmio hefyd.
6. Rwy'n defnyddio'r llwybr hwn fel rhan o daith gerdded yr wyf yn hoffi ei gwneud a byddwn yn mynd gyda fy nheulu weithiau. Byddai'r daith gerdded hon fel arfer yn cychwyn o Eithiniog, drwy gaeau'r Brewer's, i lawr tuag at yr Antalope, drwy'r brifysgol ac heibio ysgol Treborth. Mae yna'n parhau lawr lôn yr ysgol nes cyrraedd ochr arall y ffordd fawr lle mae hen dafarn y Drovers. Mae hwn yn ymuno â llwybr troed arall, sy'n mynd i ochr y garej wrth Drovers. Daw'r llwybr troed yma allan ym Mhenrhosgarnedd. Weithiau byddem yn gofalu am gi ein mab pe bai i ffwrdd ac roedd yn braf cerdded â'r ci ar y dro hon.
7. Ar lôn yr ysgol mae giât sydd wedi ei chloi yn achlysurol, ond mae man pasio i gerddwyr. Ar y giât mae arwydd yn dweud 'Preifat'. Rwy'n meddwl bod yr arwydd 'Preifat' hwn ar gyfer pobl sy'n ceisio gyrru eu ceir i fyny'r lôn. I'm cof, nid oes unrhyw arwyddion eraill ar y llwybr.
8. Yn ystod y cyfnod pan oedd Neuadd Treborth yn ysgol, roedd y prifathro bob amser yn gefnogol ac yn groesawgar i bobl fynd a dod fel y mynnant. Gwnaeth hyn wneud i mi feddwl bod y lle hwn yn gyhoeddus a bod gennym yr hawl i fynd a dod fel y mynnem ac yn gallu parcio ein ceir yn ddidrafferth o flaen yr ysgol ar gyfer hyfforddiant pêl-droed a gemau.

**Dyddiad:**.........22/8/22.........

**Llofnod:**..........[redacted]




Hawl tramwy cyhoeddus honedig /
Alleged public right of way

Llwybrau troed cyhoeddus presennol /
Existing public footpaths

**Enw / Name:** RICHARD WILLIAMS

**Llofnod / Signature:** [redacted]

**Dyddiad / Date:** 22/8/22

# Llwybr Cyhoeddus Honedig / Alleged Public Footpath
## Treborth, Bangor, LL57 2RX. Cyf. Grid / Grid Ref - SH5570

0 30 60 120 Medr / metre

© Hawlfraint y Goron a hawliau ddata 2021 Arolwg Ordnans 100023387
© Crown copyright and database rights 2021 Ordnance Survey 100023387

N W E S


**O ran cais gan Gyngor Cymuned Pentir i gofrestru llwybr troed cyhoeddus ger Treborth Hall, Treborth.**

Gwnaf i, Sara Tudor Owen o Nanhyfer, Penrhosgarnedd, Bangor, LL57 28X y datganiad hwn i gefnogi cais i gofrestru llwybr troed cyhoeddus fel y disgrifir uchod a dywedaf fel a ganlyn:

1. Rwy'n gyfarwydd â'r llwybr a hawlir, fel y dangosir gan linell goch ar y cynllun.
2. Mae'r llwybr yn cychwyn drwy gerdded drwy Erddi Treborth ymlaen i fynd dros y bont rheilffordd. Daliwch i fynd ymlaen tuag at y tai ar y chwith. O'ch blaen mae hen ysgol Treborth. Mae trac arall wrth ymyl y trac hon, nid ydym fel arfer yn ei gymryd oherwydd maen mynd trwy ychydig o goed ac nid yw hwn yn wych i fynd â'ch beic. Mae'r trac yn troi i'r dde, yna i'r chwith ac yn parhau i fynd heibio glwb pêl-droed Penrhosgarnedd, i lawr y lôn fach hyd at giât fawr, gyda giât arall yn agos yn ei hymyl. Yna mae'r llwybr yn parhau i'r ffordd fawr.
3. Dechreuais ddefnyddio'r llwybr hwn ers i mi symud i'r ardal ym 1987, 35 mlynedd yn ôl. Roedd hwn yn ddefnydd pleser i fynd am dro ac i fynd ar plant ffordd hon yn eu coetsh neu ar ei beiciau. Byddem fel arfer yn defnyddio'r llwybr ar penwythnosau. Roedd yn hyfryd i'r plant ddod â'u beiciau a byddwn yn cerdded ochr yn ochr wrth iddynt reidio eu beiciau.
4. Roedd Ysgol y Garnedd yn cael defnyddio'r llwybr i fynd i'r pwll nofio yn hen Ysgol Treborth a chafodd fy mhlant wersi nofio yma pan oedden nhw'n 6 neu 7 oed.
5. Y tro diwethaf i mi ddefnyddio'r llwybr oedd pan gefais fy herio adeg y gwanwyn 2021. ~~Dwy flynedd yn ôl~~ S.T.O a tua phythefnos ar ôl i'r cyfyngiadau clo diwethaf godi. Roeddwn i a fy ngŵr yn reidio ein beiciau ar ddydd Sul. Roeddwn wedi mynd ychydig yn gyflymach ar fy meic trydan na fy ngŵr. Ar ôl i mi reidio dros y bont, mi wnes i stopio ger y tai i aros iddo ddal i fyny. Wrth i mi aros, daeth dau ddyn allan o'r tŷ. Roedd un yn hŷn ac un yn iau. Roedd y ddau ddyn yn gwisgo camerâu corff ac mewn ffordd fygythiol gofynodd, "What right do you have to pass this way?" Roedd fy ngŵr wedi cyrraedd yno ac erbyn hynny roedd un o'r dynion wedi galw am y ddynes ddod allan, roedd y ddynes hefyd yn ffilmio efo'i ffon. ~~Cafwyd yr heddlu ei alw allan ond nid ni wnaeth gysylltu a nhw~~ S.T.O. Roedd y tri yn ymddwyn mewn ffordd fygythiol. Roedd hwn yn brofiad erchyll a dydw i ddim wedi ceisio mynd yn ôl ers hynny. Ers i'r ysgol gael ei gwerthu a'r perchnogion newydd gymryd y lle ymlaen, mae'r gymuned yn teimlo wedi'i gwahanu ac mae'n bechod gweld yr hen ysgol Treborth wedi dod i hyn.
6. Penderfynodd fy ngŵr drio mynd heibio eto yn ddiweddar, tua mis Medi/Hydref y llynedd. Cafodd ei stopio yn union yr un lle eto a chafodd ei herio eto gyda pethau yn mynd mwy bygythiol ~~a chafodd y heddlu ei alw~~. S.T.O.
7. Dwi wastad wedi meddwl bod y ffordd yma yn gyhoeddus gan mai ysgol oedd hi, roedd fy mhlant yn mynd i nofio yno, roedd y clwb pêl-droed wrth ei ymyl, roedd hyd yn oed Merched y Wawr yn cynnal noson Gateway ar Nos Wener yn yr ysgol hefyd. Pan oedd gemau pêl-droed ymlaen roeddem wedi parcio o flaen yr ysgol, ni ddywedodd y prifathro ddim byd amdano ac roedd yn ymddangos yn hapus i bobl fod o gwmpas yr ysgol yn parcio ac yn mynd heibio. S.T.O
8. Pan fyddwch yn dod allan o erddi Treborth, dros y bont ac o'ch blaen fe welwch arwydd yn dweud "Private". Rwyf yn cofio arwydd yn dweud CCTV rhywle yn agos at ochr fferm Treborth i'r llwybr.

**Dyddiad:** 20/08/2022

**Llofnod:** [redacted]




Enw / Name: SARA TUDOR OWEN

Llofnod / Signature: [redacted]

Dyddiad / Date: 20/08/2022

**Llwybr Cyhoeddus Honedig / Alleged Public Footpath**
**Treborth, Bangor, LL57 2RX. Cyf. Grid / Grid Ref - SH5570**

0 30 60 120 Medr / metre

© Hawlfraint y Goron a hawliau ddata 2021 Arolwg Ordnans 100023387
© Crown copyright and database rights 2021 Ordnance Survey 100023387

Manhyfer,
Penrhosgarnedd
22ain Awst 2022

Annwyl Catrin,

Amgenaf y datganiad ond rwyf wedi dileu ambell gwpled ac wedi'u arwyddo.

Hoffwn hefyd Son am Mr Williams, sef cyn brifathro Ysgol Treborth a oedd yn croesawu'r gymuned leol i'r ysgol. Roedd hyn yn bwysig iddo gan fod ei ddisgyblion a oedd gyda anghenion arbennig yn cael cymdeithasu gyda phlant a phobol y gymuned.

Diolch yn fawr.

[redacted]


**O ran cais gan Gyngor Cymuned Pentir i gofrestru llwybr troed cyhoeddus ger Neuadd Treborth.**

Gwnaf i, Branwen Thomas o Ger Môn, Ffordd Siliwen, Bangor, Gwynedd, LL57 2BH y datganiad hwn i gefnogi cais i gofrestru llwybr troed cyhoeddus fel y disgrifir uchod a dywedaf fel a ganlyn:

1. Rwy'n gyfarwydd â'r llwybr a hawlir, fel y dangosir gan linell goch ar y cynllun.
2. Pan fyddaf yn cerdded y llwybr troed hwn, byddaf fel arfer yn cychwyn o fy nghartref ac yn cerdded i lawr i gyfeiriad Pont Menai. Ar ôl hyn, dwi'n cerdded drwy'r gerddi botanegol a throi i'r chwith ychydig i fynd dros yr hen bont rheilffordd, heibio rhai tai ar y chwith ac ar y darn tarmac sy'n mynd o flaen y plas dy. Ar ôl mynd heibio'r plas dy, mae'r trac yn troi i'r chwith ychydig ac yn parhau i fynd heibio'r clwb pêl-droed ar y dde. Parhaodd y llwybr troed i lawr trac cerrig tuag at y ffordd fawr ger Penrhosgarnedd. Byddwn fel arfer yn mynd yn ôl yr un ffordd.
3. Dechreuais ddefnyddio'r llwybr troed hwn tua 2003, tua 20 mlynedd yn ôl. Rwy'n cofio mynd â fy mab y ffordd hon byth ers iddo allu cerdded ac wrth iddo fynd yn hŷn byddwn yn cerdded tra byddai'n mynd ar ei feic wrth fy ymyl. Am sbel, dim ond i fyny at bont y rheilffordd ac yn ôl y cerddon ni ond wrth iddo fynd yn hŷn fe gerddon ni ymhellach lawr y lon gerrig heibio'r hen ysgol tuag at Penrhosgarnedd. Fel arfer, byddwn yn ei gerdded yn y prynhawn ac yn bennaf ar benwythnosau.
4. Cyn i mi stopio ddefnyddio'r llwybr troed hwn, roeddwn yn ei gerdded o gwmpas unwaith y mis, roedd yn un o'm llwybrau cerdded y byddwn yn ei ddewis o bryd i'w gilydd.
5. Byddwn yn mynd â fy mab i'w hyfforddiant pêl-droed yno hefyd a byddai'r ysgol yn gadael i ni barcio'r car o flaen yr ysgol. Ni ddywedodd yr ysgol unrhyw beth am barcio nac unrhyw beth a wnaeth i mi feddwl nad oeddem i fod i gerdded y llwybr heibio'r ysgol. Roeddwn i'n gwybod bod y lle yn eiddo i Gyngor Gwynedd ac yn cymryd bod y lle yn gyhoeddus.
6. Dydw i ddim yn cofio gweld unrhyw fath o arwyddion ar y llwybr troed.
7. Yr unig rwystr a gofiaf ar y llwybr troed oedd barier melyn dros bont y rheilffordd. Fel arfer roedd ar agor ac anaml y byddai ar gau. Dydw i ddim yn siŵr pwy oedd perchennog y barier hwn, ond rwy'n meddwl iddo gael ei ddefnyddio ar gyfer ceir a gallai pobl gerdded i'w ochr.
8. Yn ddiweddar, rwyf wedi clywed bod perchnogion Neuadd Treborth yn erbyn pobl yn defnyddio'r llwybr troed ac wedi bod yn fygythiol tuag at rai pobl, felly meddyliais mai cadw draw oedd y peth orau. Oherwydd hyn dydw i ddim wedi bod ar y llwybr troed ers i covid ddigwydd. Nid wyf erioed wedi cael fy herio'n bersonol am ddefnyddio'r llwybr troed. Nid ydwyf eisiau unrhyw wrthdaro, rwyf jyst eisiau mwynhau mynd am dro.

**Dyddiad:** Tachwedd 4ydd, 2022

**Llofnod:...**[redacted]




Enw / Name: BRANWEN THOMAS

Llofnod / Signature: [redacted]

Dyddiad / Date: Ionawr 4ydd, 2022

# Llwybr Cyhoeddus Honedig / Alleged Public Footpath
## Treborth, Bangor, LL57 2RX. Cyf. Grid / Grid Ref - SH5570

0 30 60 120 Medr / metre

© Hawlfraint y Goron a hawliau ddata 2021 Arolwg Ordnans 100023387
© Crown copyright and database rights 2021 Ordnance Survey 100023387


**O ran cais gan Gyngor Cymuned Pentir i gofrestru llwybr troed cyhoeddus ger Neuadd Treborth.**

Gwnaf i, Dorothy MacPhail o 9 Cae Gors, Penrhosgarnedd, Bangor, Gwynedd, LL57 2QJ y datganiad hwn i gefnogi cais i gofrestru llwybr troed cyhoeddus fel y disgrifir uchod a dywedaf fel a ganlyn:

1. Rwy'n gyfarwydd â'r llwybr a hawlir, fel y dangosir gan linell goch ar y cynllun.
2. Rwy'n mwynhau gwneud y dro hon fel rhan o gylchdaith gan gychwyn o fy nghartref ym Mhenrhosgarnedd a gwneud fy ffordd fyny i Lon Treborth. Wrth i mi groesi'r ffordd, rwy'n cerdded i mewn i gyffordd ac yn mynd i lawr lôn fach. Wrth i mi gerdded i lawr y lôn rwy'n pasio'r maes golff ar y chwith. Mae'r lôn yn parhau am ychydig cyn mynd i dir yr ysgol. Dyma lle mae'r lôn yn dilyn trwodd, gan fynd heibio Neuadd Treborth ac yn parhau dros yr hen bont rheilffordd. Mae'r llwybr troed yn mynd heibio'r trac rhedeg ar y chwith ac yn troi ychydig i'r dde i fynd drwy Erddi Botaneg Treborth. Rwy'n cerdded drwy'r gerddi tuag at Lwybr Arfordir Cymru gan anelu at bont Menai. Ar ôl cyrraedd Pont Menai, fyddaf yn cerdded ar y palmant ac yn ôl adre.
3. Dechreuais gerdded y llwybr troed am y tro cyntaf pan symudais i Benrhosgarnedd tua 2008 ac roeddwn yn arfer cerdded y llwybr troed fwy nag unwaith yr wythnos yn ystod y cyfnod hwn. Byddwn yn mwynhau mynd am dro ar fy mhen fy hun neu fynd a fy wyrion ffordd hyn pan oeddent yn iau.
4. Oherwydd rhesymau iechyd ac yn dal i weithio'n rhan amser, rwyf wedi bod yn defnyddio llwybr troed llai a nawr byddwn yn defnyddio'r llwybr troed tua unwaith y mis. Dydw i ddim wedi bod ar y llwybr troed ers dipyn a'r tro diwethaf i mi gerdded y llwybr troed oedd yr haf llynedd.
5. Er nad ydwyf yn cerdded y llwybr troed cymaint nawr, mae yna adegau pan fyddaf yn defnyddio'r llwybr troed yn fwy aml a dyma pan fydd fy wyres adref o'r brifysgol, felly byddwn yn mynd am dro gyda'n gilydd. Byddwn hefyd yn cerdded y llwybr troed hwn yn fwy yn ystod misoedd yr haf pan fydd y tywydd yn well.
6. Rwyf wedi gweld rhai arwyddion ar y llwybr troed ac fe wnaethant ymddangos tua 2018-2019. Dydw i ddim yn cofio yn union beth dywedon nhw ond rwy'n ymwybodol eu bod yn rhywbeth i'w wneud am dresmasu ger yr ysgol. Credaf fod perchennog newydd Neuadd Treborth wedi rhoi'r rhain i fyny. Nid wyf yn cymryd llawer o sylw o'r arwyddion hyn gan fod pobl bob amser wedi cerdded y ffordd hon ac yn dal i wneud. Felly nid ydynt wedi fy atal rhag cerdded y ffordd hon. Mae wedi bod yn lwybr troed erioed. Yr unig adeg pan oeddwn i'n meddwl nad oedd rhywbeth yn hollol iawn gyda'r llwybr troed, yw pan fu'n rhaid i mi lenwi fy ffurflen wreiddiol ar gyfer y ddeiseb llwybr troed hon. Yn ystod y cyfnod hwn roedd rhai bolardiau ar y llwybr troed ac yno i atal pobl rhag gyrru i flaen yr hen ysgol, roedd yn hawdd i bobl gerdded heibio.
7. Nid wyf wedi cael fy herio'n bersonol ond mae fy wyres a'i phlant ifanc wedi cael eu herio gan ddyn ger blaen Neuadd Treborth. Roedden nhw ar eu beiciau ar y pryd. Mae'n rhaid mai'r dyn hwn oedd perchennog newydd Neuadd Treborth.

**Dyddiad:**......7|10|22.....................

**Llofnod:**...[redacted]




**Enw / Name:** Dorothy MacPhail

**Llofnod / Signature:** [redacted]

**Dyddiad / Date:** 7/11/22

# Llwybr Cyhoeddus Honedig / Alleged Public Footpath
# Treborth, Bangor, LL57 2RX. Cyf. Grid / Grid Ref - SH5570

© Hawlfraint y Goron a hawliau ddata 2021 Arolwg Ordnans 100023387
© Crown copyright and database rights 2021 Ordnance Survey 100023387

**O ran cais gan Gyngor Cymuned Pentir i gofrestru llwybr troed cyhoeddus ger Neuadd Treborth.**

Gwnaf i, Erin Mai Owen o 256 Macket Lane, Lerpwl, L25 9RT y datganiad hwn i gefnogi cais i gofrestru llwybr troed cyhoeddus fel y disgrifir uchod a dywedaf fel a ganlyn:

1. Rwy'n gyfarwydd â'r llwybr a hawlir, fel y dangosir gan linell goch ar y cynllun.
2. Pan fyddaf yn defnyddio'r llwybr troed byddwn yn aml yn gwneud cylchdaith, yn gyntaf trwy gychwyn o fy nghartref ac yna i'r brif ffordd Treborth, gan fynd heibio i Stermat Car Hire ar y chwith, yna i ffordd Bronwydd sy'n mynd heibio'r milfeddygfa. Oddi yma mae'n arwain at lwybr yr arfordir, gan fynd heibio dau gae ac yn ôl i gyfeiriad y gerddi botanegol, dros y bont rheilffordd a heibio blaen hen ysgol Treborth. Yna mynd heibio'r clwb pêl-droed, i lawr ffordd fach, gan fynd heibio'r hen faes golff yn ôl tuag at y ffordd fawr ac yn ôl adref.
3. Roeddwn i'n arfer byw yn y tŷ drws nesaf i'r ysgol o gwmpas 1998. Symudon ni dŷ o gwmpas y flwyddyn 2000 i fyw ym Mangor. Unwaith i mi symud o'n tŷ ni drws nesaf i ysgol Treborth, roeddwn i'n dal i ddefnyddio'r llwybr i fynd am dro o gwmpas unwaith y mis. Byddwn yn mwynhau cerdded y ffordd hon gyda mam.
4. Rwyf wedi rhoi'r gorau i ddefnyddio'r llwybr nawr ers tua 2021, oherwydd mae mam wedi dweud wrthyf beth ddywedodd ei ffrind. Dywedodd fod llawer o bobol wedi cael trafferth pasio ar y llwybr troed lle mae hen ysgol Treborth ac nad yw'r perchnogion newydd yn neis iawn. Er gwaethaf hyn nid wyf erioed wedi cael fy herio am ddefnyddio'r llwybr.
5. Roedd yna amser pan oeddwn i ym Mhrifysgol Bangor yn 2017 am dair blynedd. Er hyn ac yn byw ychydig ymhellach, ni newidiodd fy nefnydd a byddwn yn dal i gerdded y llwybr troed am tua unwaith y mis.
6. Yr unig arwydd dwi'n cofio ei weld oedd arwydd Preifat ar y giât sydd i'r dde o'r wal ger y hen faes golff. Dyma'r trac sy'n arwain ffordd wahanol i'r llwybr troed trwy ychydig o goed.
7. Dwi wastad wedi meddwl bod y llwybr troed yma yn un cyhoeddus gan fy mod i wedi cerdded y llwybr lawer gwaith, dwi hefyd wedi helpu gyda'r sesiynau ysgol farchogaeth anabl a hefyd mynd am wersi nofio yn ysgol Treborth pan oeddwn yn iau.

**Dyddiad:** 28/11/2022

**Llofnod:** [redacted]

**O ran cais gan Gyngor Cymuned Pentir i gofrestru llwybr troed cyhoeddus ger Neuadd Treborth.**

Gwnaf i, Gwawr Parry Llewelyn o 211 Ffordd Penrhos, Bangor, Gwynedd, LL57 2DJ y datganiad hwn i gefnogi cais i gofrestru llwybr troed cyhoeddus fel y disgrifir uchod a dywedaf fel a ganlyn:


1. Rwy'n gyfarwydd â'r llwybr a hawlir, fel y dangosir gan linell goch ar y cynllun.
2. Pan fyddaf yn mynd am dro ar y llwybr troed hwn, rwy'n cychwyn fel arfer o fy nghartref ac yn anelu at gaeau'r 'brewers' a'r Antelope Inn. O'r fan hon rwy'n parhau drwy erddi botanegol Treborth a throi ychydig i'r chwith i fynd dros bont rheilffordd. I'r dde o'r fan hon mae trac athletau ger y llwybr troed. Dilynaf y ffordd fach i lawr heibio'r tai ar y chwith ac mae'r lôn yn troi ychydig i'r dde i fynd o flaen yr hen ysgol. O'r fan hon, dwi'n dod allan o dir yr ysgol heibio clwb pêl-droed Penrhosgarnedd i'r dde ac yn parhau lawr y lôn. Hanner ffordd i lawr y lôn mae'r llwybr cyhoeddus arall yn ymuno â'r lôn. Yna mae'r lôn yn dod i gyffordd sy'n cwrdd a Lon Treborth. O'r fan hon rwy'n gwneud fy ffordd yn ôl adref.
3. Dechreuais ddefnyddio'r llwybr troed tua 5 mlynedd yn ôl yn 2017/2018. Rwy'n mwynhau cerdded y llwybr a byddwn yn ei ddefnyddio tua unwaith y mis gan fod pethau wedi mynd yn brysurach i mi yn ddiweddar. Rwyf hefyd wedi clywed am ychydig o drafferth yn diweddar o flaen yr ysgol a dydw i ddim eisiau cael fy ngwrthwynebu yn enwedig os ydi fy mhlant ifanc gyda mi.
4. Yn ystod amser covid, roedd hon yn lwybr oeddem yn ei gwneud bron yn ddyddiol oherwydd y cyfyngiadau covid ond yn caniateid i ni fynd ar deithiau cerdded lleol.
5. Rwy'n defnyddio'r llwybr troed yn amlach yn ystod misoedd heulog braf yr haf oherwydd tywydd gwell a hefyd oherwydd gwyliau ysgol y plant. Byddai hefyd bron bob dydd yn ystod hanner tymor a byddwn yn mynd a fy mhlant ar y llwybr troed. Roedd yn le diogel i fynd â'r plant.
6. Gan fod hwn yn un o fy nheithiau cerdded arferol, wnes i ddim talu sylw penodol i arwyddion. Dwi'n ansicr, ond dwi'n cofio gweld arwydd yn dweud 'Private' rhywle ger Neuadd Treborth. Credaf fod perchennog newydd Neuadd Treborth wedi rhoi hyn i fyny. Am gyfnod hir, roeddwn i'n meddwl nad oedd neb yn byw yno nes i aelod o'r teulu gael ei herio.
7. Rwyf bob amser wedi meddwl bod y llwybr troed hwn yn lwybr cyhoeddus. Weithiau roedden ni'n defnyddio'r llwybr cyhoeddus arall sy'n croesi dau gae sy'n cwrdd â'r lôn fach ac roeddwn i'n cymryd bod y llwybr troed yn parhau i'r chwith i lawr y lôn heibio'r hen ysgol. Roeddwn hefyd yn meddwl ei fod yn edrych fel lôn fach wledig a gallai cerddwyr a cheir fynd arni.
8. Nid wyf erioed wedi cael fy herio'n bersonol am ddefnyddio'r llwybr ond mae aelod o'r teulu wedi cael ei herio am ddefnyddio'r llwybr troed. Roedd hyn hefyd yn fy ngwneud yn llai awyddus i gerdded y llwybr troed gan nad oeddwn eisiau gwrthdaro.

**Dyddiad:**......20.11.22...........

**Llofnod:** ...[redacted]

Hawl tramwy cyhoeddus honedig / Alleged public right of way

Llwybrau troed cyhoeddus presennol / Existing public footpaths




Enw / Name:

Llofnod / Signature:

Dyddiad / Date:

# Llwybr Cyhoeddus Honedig / Alleged Public Footpath
## Treborth, Bangor, LL57 2RX. Cyf. Grid / Grid Ref - SH5570

0 30 60 120 Medr / metre

© Hawlfraint y Goron a hawliau ddata 2021 Arolwg Ordnans 100023387
© Crown copyright and database rights 2021 Ordnance Survey 100023387


**O ran cais gan Gyngor Cymuned Pentir i gofrestru llwybr troed cyhoeddus ger Neuadd Treborth.**

Gwnaf i, Mari Lois Jones o Llys Tegai, 104 Ffordd Penrhos, Bangor, Gwynedd, LL57 2BX y datganiad hwn i gefnogi cais i gofrestru llwybr troed cyhoeddus fel y disgrifir uchod a dywedaf fel a ganlyn:

1. Rwy'n gyfarwydd â'r llwybr a hawlir, fel y dangosir gan linell goch ar y cynllun.
2. Pan fyddaf yn defnyddio'r llwybr troed hwn, byddwn fel arfer yn ei wneud fel rhan o lŵp. Fel arfer byddwn yn cychwyn o fy nghartref ac yn anelu am Lôn Dywyll ac yna i'r ffordd fawr. Rwy'n cyrraedd cyffordd lôn fach, lle mae'r llwybr troed yn cychwyn. Cerddaf i lawr y lôn fach yma heibio'r maes carafanau a heibio clwb pêl-droed Penrhosgarnedd i'r chwith. Wedyn cerddaf i mewn i faes parcio'r hen ysgol ac mae Neuadd Treborth i'r dde. Mae'r llwybr troed yn dilyn y lôn drwy basio rhai tai ar y dde hefyd. Yna mae'r llwybr troed yn croesi pont reilffordd ac i erddi Treborth. Yma gallaf gerdded drwy erddi Treborth a gwneud fy ffordd draw i lwybr yr arfordir os ydw i eisiau a gwneud lŵp yn ôl adref.
3. Symudais i'r ardal yn 2006 a dechreuais ddefnyddio'r llwybr troed o gwmpas 2008-2009, er bod gennyf rywfaint o gof o ddefnyddio'r llwybr troed hwn cyn y blynyddoedd hyn gan fod gennyf ychydig o atgofion o'i ddefnyddio pan oeddem yn ymweld a theulu ym Mangor pan oeddwn yn blentyn. Mae gen i gof hefyd o aros yn y maes carafanau rhywbryd cyn i mi symud yma ac mae'n rhaid fy mod wedi cerdded y llwybr troed bryd hynny.
4. Rwy'n cofio ei ddefnyddio'n iawn tua 2008/09 oherwydd mae hyn yn ystod yr amser pan gefais fy mab ac rwy'n cofio mynd ag ef yn y pram ar y llwybr hon.
5. Roeddwn i'n ei ddefnyddio o fwy nag unwaith yr wythnos at lawer o ddibenion fel cerdded, rhedeg a beicio. Wrth i fy meibion fynd yn hŷn, byddwn yn mynd a nhw ar eu beiciau ffordd hyn gan ei fod yn le diogel iddynt reidio eu beiciau. Rwyf hefyd yn aelod o glwb rhedeg ac rydym yn cyfarfod bob wythnos ar y trac rhedeg ger yr ysgol. Byddwn yn cerdded i'r trac ond nawr ni allaf gerdded yno.
6. Mae gen i ddau fab sy'n chwarae pêl-droed. Mae un yn chwarae i glwb pêl-droed Penrhosgarnedd a fy mab arall yn chwarae pêl-droed ar gaeau'r brifysgol. Maen nhw'n chwarae pêl-droed ar yr un pryd weithiau a byddwn i'n defnyddio'r llwybr troed i fynd rownd o un cae pêl-droed i'r llall er mwyn i mi allu gwylio'r ddau yn chwarae.
7. Rwyf wedi gweld arwyddion o amgylch y llwybr troed ac maent ar y giât ger y maes carafanau i lawr y lôn. Dywedon nhw 'CCTV', 'Private' a 'Danger Loose Dogs'. Mae'n rhaid bod yr arwyddion hyn wedi ymddangos ychydig cyn covid. Rwy'n credu bod mwy o arwyddion i fyny nawr. Roedd yr arwyddion hyn yn gwneud i mi deimlo ychydig yn ofnus ac hefyd yn achosi ychydig o ddryswch gan fod yna lwybr cyhoeddus sy'n mynd heibio'r giât ac yn troi i fynd trwy ddau gae hanner ffordd i fyny'r lôn fach.
8. Rwyf wedi cael fy herio o'r blaen am ddefnyddio'r llwybr troed ac roedd hyn tua mis Ebrill y llynedd. Roeddwn yn rhedeg ar y llwybr fel arfer heibio'r ysgol a chefais fy stopio gan ddyn yn gafael llif gadwyn. Mewn ffordd fygythiol fe ddywedodd mai ei dir o oedd hwn ac ni ddylwn i fod yno. Roeddwn i'n teimlo'n ychydig yn ofnus efo'r dyn yn gafael llif gadwyn ac yn dweud hyn ac oll oeddwn yn gallu gwneud oedd ymddiheuro iddo.

**Llofnod:** M. L. Jones

**Dyddiad:** [redacted]




# Llwybr Cyhoeddus Honedig / Alleged Public Footpath
## Treborth, Bangor, LL57 2RX. Cyf. Grid / Grid Ref - SH5570

© Hawlfraint y Goron a hawliau ddata 2021 Arolwg Ordnans 100023387
© Crown copyright and database rights 2021 Ordnance Survey 100023387


**O ran cais gan Gyngor Cymuned Pentir i gofrestru llwybr troed cyhoeddus ger Neuadd Treborth.**

Gwnaf i, Modlen Lynch o Tŷ'n Llwyn, Pentir, Bangor, Gwynedd y datganiad hwn i gefnogi cais i gofrestru llwybr troed cyhoeddus fel y disgrifir uchod a dywedaf fel a ganlyn:

1. Rwy'n gyfarwydd â'r llwybr a hawlir, fel y dangosir gan linell goch ar y cynllun.
2. Wrth gerdded y llwybr, byddwn fel arfer yn gwneud cylchdaith trwy gychwyn o fy nghartref, ymlaen i Lôn Dywyll tuag at hen dafarn 'Drovers'. Croeswch y ffordd ac ewch ar hyd lôn fechan sy'n mynd heibio i'r 'driving range'. Parhewch yn syth ar y llwybr troed tuag at yr ysgol gan fynd heibio i'r clwb pêl-droed ar y chwith. Mae'r llwybr troed yn troi ychydig i'r dde i fynd heibio o flaen yr ysgol, dros bont y rheilffordd, heibio'r trac rhedeg, ac yn parhau drwy'r gerddi. Wedyn byddwn fel arfer yn parhau tuag at dafarn yr Antalope ac yn mynd yn ôl i Lon Dywyll ac yn ôl adref.
3. Dechreuais ddefnyddio'r llwybr troed tua 1992, 30 mlynedd yn ôl. Byddwn yn defnyddio'r llwybr troed o gwmpas unwaith yr wythnos i fynd am dro gan ei fod yn lle hyfryd i wneud cylchdaith o fy nghartref. Weithiau byddwn i'n defnyddio'r llwybr troed yn amlach nag unwaith yr wythnos gan fy mod yn arfer mynd â fy mhlant i hyfforddiant pêl-droed a gwersi nofio yn hen ysgol Treborth.
4. Yn yr haf weithiau, byddwn ar y llwybr troed ychydig yn fwy gan y byddai cefndryd fy mhlant yn dod draw a byddem yn mynd i gerdded ar y llwybr troed.
5. Rwyf wedi rhoi'r gorau i ddefnyddio'r llwybr troed pan symudom i Bentir tua 2005-2006.
6. Dydw i ddim yn cofio gweld unrhyw arwyddion na dim i ddweud bod y llwybr troed yn breifat. Ni chroesodd fy meddwl erioed nad oedd y lle hwn yn gyhoeddus, roedd y le oedd pawb yn mynd. Doedd neb, dim hyd yn oed pobl o'r ysgol erioed wedi gwneud i mi deimlo neu gwestiynu os ddylwn i fod yno.
7. Mae 'barrier' melyn wrth i chi fynd dros bont y rheilffordd. Anaml iawn y caewyd hwn a dyna oedd diben atal ceir rhag mynd heibio. Gallai pobl fynd o amgylch y 'barrier' yn hawdd.
8. Nid wyf erioed wedi cael fy herio am ddefnyddio'r llwybr troed hwn. Rwyf wedi clywed am rai materion sy'n digwydd gyda'r llwybr troed yn ddiweddar ond nid wyf erioed wedi cael fy herio'n bersonol.

**Dyddiad:** 30/11/22

**Llofnod:** [redacted]




**Enw / Name:**

**Llofnod / Signature:**

**Dyddiad / Date:**

# Llwybr Cyhoeddus Honedig / Alleged Public Footpath
## Treborth, Bangor, LL57 2RX. Cyf. Grid / Grid Ref - SH5570


© Hawlfraint y Goron a hawliau ddata 2021 Arolwg Ordnans 100023387
© Crown copyright and database rights 2021 Ordnance Survey 100023387


**O ran cais gan Gyngor Cymuned Pentir i gofrestru llwybr troed cyhoeddus ger Neuadd Treborth.**

Gwnaf i, Mrs M. G. Goulding o Hafod y Ddol, Rhos Trehwfa, Llangefni, LL77 7YR y datganiad hwn i gefnogi cais i gofrestru llwybr troed cyhoeddus fel y disgrifir uchod a dywedaf fel a ganlyn:

1. Rwy'n gyfarwydd â'r llwybr a hawlir, fel y dangosir gan linell goch ar y cynllun.
2. Mae'r llwybr troed yn cychwyn o dan bont Menai drwy fynd heibio'r Antelope Inn. Yna mae'r llwybr troed yn mynd drwy'r gerddi botanegol ac yn troi ychydig i'r chwith dros y bont rheilffordd. Wrth ymyl fan hyn mae'r trac athletau. Ar ôl mynd dros y bont, ewch yn syth ymlaen heibio'r tai ar y chwith a dilynwch y lôn rownd. Mae'r lôn rhwng yr hen ysgol ac ychydig o wair. Y tu ôl i'r gwair mae ychydig o goed, yma mae trac rwyf wedi ei ddefnyddio i gerdded weithiau hefyd, yn enwedig pan mae lawer o geir wedi parcio o flaen yr ysgol. Mae'r lôn yn gadael tir yr ysgol a heibio'r clwb pêl-droed ar y dde. Mae'r llwybr yn parhau i lawr y lôn fach, heibio'r maes golff nes i chi gyrraedd y gyffordd gyda Lon Treborth. Yma weithiau byddwn yn gwneud lŵp i fyny at bont Britania ac ymlaen i'r llwybr arfordirol.
3. Dechreuais gerdded y llwybr troed hwn gyntaf fel plentyn 1971. Rwy'n cofio mynd am dro fel hyn gyda mam a dad. Rwy'n meddwl y byddai mam wedi mynd â ni yn y pram ffordd hyn hefyd. Mae gen i atgofion eraill fel plentyn yn cerdded y llwybr hon a dyma pan oeddwn i yn Ysgol Gynradd y Garnedd. Byddem weithiau'n cael gwersi gwyddoniaeth yn y gerddi botanegol i ddysgu am goed a phlanhigion.
4. Pan o'n i'n blentyn ro'n i'n byw yn Eithiniog gyda fy rhieni ac roedden ni hefyd yn defnyddio'r llwybr troed o gyfeiriad gwahanol i'r hyn rydw i'n ei wneud nawr. Cychwynnodd y daith hon drwy fynd o'n cartref yn Eithiniog, drwy gaeau 'brewers' a heibio tafarn yr Antelope, drwy'r ardd fotaneg ac ar y llwybr troed.
5. Fel plentyn, byddwn yn cerdded ar y llwybr troed hwn bron bob wythnos, yn enwedig os oedd dad adref o'r gwaith. Rwyf wedi gweld yr ardal yn datblygu ac wedi defnyddio'r llwybr troed cyn i bethau fel y trac athletau gael eu hadeiladu.
6. Dydw i ddim yn defnyddio'r llwybr troed mor aml nawr ac nid wyf wedi bod yno ers tro. Rwyf nawr yn ei ddefnyddio tua 3 i 4 gwaith y flwyddyn.
7. Byddwn hefyd yn defnyddio'r llwybr troed hwn fel ffordd o gerdded at fy ffrind a oedd yn gweithio yn ysgol Treborth ac a fyddai'n cerdded yn ôl gyda'n gilydd.
8. Nid oedd unrhyw arwyddion o'r llwybr troed. Yr unig arwydd oedd yn dweud 'Preifat' oedd i gefn Neuadd Treborth. Wrth gwrs mae cael arwydd preifat tu ôl i Neuadd Treborth yn gwneud synnwyr gan nad yw'r llwybr troed yn mynd y ffordd yno ac mae'r ardal honno yn eiddo preifat.
9. Roeddwn i'n cerdded y llwybr troed gyda fy ffrind a chawsom ein stopio gan ddyn yr oeddwn yn tybio ei fod yn berchennog newydd Neuadd Treborth wrth iddo ddod allan o'r tŷ mawr. Dywedodd nad oedd gennym hawl i fod yno a'n bod yn tresbasu. Digwyddodd hyn tua 2015-2016. Mae hefyd wedi ceisio fy atal rhag parcio yno o'r blaen hefyd. Does neb wedi trio stopio fi cyn hyn am ddefnyddio'r llwybr troed a doedd neb erioed wedi trio fy stopio rhag parcio yno chwaith. Roedd yn arferol cerdded a pharcio yno. Ni ddywedodd yr ysgol unrhyw beth wrthym am y llwybr troed ac roedd yn ymddangos yn hapus. Roedd yr ysgol yn rhan fawr iawn o'r gymuned ac yn gwneud i bawb deimlo'n groesawgar.

**Dyddiad:** 5/11/2022

**Llofnod:** [redacted]




Enw / Name: Meryl Goulding

Llofnod / Signature: [redacted]

Dyddiad / Date: 5/11/2022.

**Llwybr Cyhoeddus Honedig / Alleged Public Footpath**
**Treborth, Bangor, LL57 2RX. Cyf. Grid / Grid Ref - SH5570**

0 30 60 120 Medr / metre

© Hawlfraint y Goron a hawliau ddata 2021 Arolwg Ordnans 100023387
© Crown copyright and database rights 2021 Ordnance Survey 100023387


**O ran cais gan Gyngor Cymuned Pentir i gofrestru llwybr troed cyhoeddus ger Neuadd Treborth.**

Gwnaf i, Richard Emlyn Roberts o 2 Fourcrosses, Treborth, Bangor, Gwynedd, LL57 2NZ y datganiad hwn i gefnogi cais i gofrestru llwybr troed cyhoeddus fel y disgrifir uchod a dywedaf fel a ganlyn:

1. Rwy'n gyfarwydd â'r llwybr a hawlir, fel y dangosir gan linell goch ar y cynllun.
2. Pan fyddaf yn cerdded y llwybr troed, byddaf fel arfer yn cychwyn o fy nghartref ac yn cerdded ar hyd ffordd Treborth nes cyrraedd cyffordd fach ac rwy'n troi i'r chwith i fynd i lawr lôn fach sy'n mynd heibio'r maes golff a'r maes carafanau. Parhewch i lawr y lôn nes cyrraedd blaen hen ysgol Treborth. Dyma lle gallwch naill ai fynd i lawr y trac drwy'r coed i'r chwith neu barhau ar y tarmac o flaen yr hen ysgol. Fel arfer byddwn yn cerdded y tu ôl i'r coed, sy'n cwrdd â'r darn tarmac ychydig cyn cyrraedd pont y rheilffordd. Ar ôl croesi'r bont rheilffordd, ewch drwy'r gerddi botanegol ac i'r llwybr arfordirol tuag at bont Britania. Byddwn yn gwneud fy ffordd adref drwy Ffordd Bronwydd.
3. Dechreuais ddefnyddio'r llwybr tua 1993 a byddwn yn defnyddio'r llwybr troed tua 2-3 gwaith yr wythnos. Roedd yn gylchdaith braf a oedd yn lân ac yn gyfleus ac yn llawer haws na defnyddio'r llwybr troed arall sy'n eithaf mwdlyd. Roeddwn i'n arfer cerdded fy mab i hyfforddiant pêl-droed a gêm yma hefyd.
4. Tan yn ddiweddar, roeddwn dal yn defnyddio'r llwybr troed tua 2-3 gwaith yr wythnos a nawr anaml y byddaf yn mynd gan fy mod wedi cael fy herio am gerdded y llwybr troed. Nawr fyddwn i ond yn cerdded heibio os oedd gwir angen i mi basio.
5. Weithiau pan fyddaf yn mynd am dro mae fy ngwraig yn ymuno a mi ac roedd fy mhlant weithiau yn dod gyda ni hefyd.
6. Rwy'n rhan o glwb rhedeg ac rydym yn cyfarfod unwaith yr wythnos ar y trac athletau. Roedd yn gyfleus i mi gerdded i lawr y llwybr troed, yn enwedig gyda'r cynnydd mewn traffig. Nawr ni allaf wneud hyn a byddai'n rhaid i mi wneud cylchdaith lawer hirach i gerdded o gwmpas i gyrraedd yno.
7. Rwyf wedi gweld llawer o arwyddion o gwmpas ac rwy'n meddwl eu bod yn dweud 'Preifat' ac mae'r rhan fwyaf o'r rhain o flaen Neuadd Treborth. Mae maes parcio hefyd o flaen y neuadd ac mae'r perchnogion newydd wedi gosod bolardiau bach gwyn o amgylch y maes parcio. Rwy'n ansicr beth yw pwrpas y bolardiau hyn, o bosibl yn datgan eu heiddo a gwahanu o'r llwybr. Rwy'n meddwl bod yr arwyddion a'r bolardiau hyn wedi ymddangos yn eithaf ddiweddar.
8. Rwyf wedi cael fy herio unwaith am ddefnyddio'r llwybr troed. Roeddwn i'n cerdded gyda fy ngwraig a'n ci a chawsom ein stopio gan ddyn a rhywun roeddwn i'n tybio oedd ei fab. Dywedodd y dyn ei fod yn dir preifat mewn ffordd fygythiol. Dywedais wrth y dyn fy mod wedi bod yn cerdded yma ers amser maith. Doeddwn i ddim yn siŵr pwy oedd y dyn yma ond roeddwn i'n cymryd mae'n rhaid mai ef oedd perchennog newydd Neuadd Treborth.

**Dyddiad:** 29/10/22

**Llofnod:** [redacted]




Enw / Name: RICHARD EMLYN ROBERTS

Llofnod / Signature: [redacted]

Dyddiad / Date: 29/10/22

# Llwybr Cyhoeddus Honedig / Alleged Public Footpath
# Treborth, Bangor, LL57 2RX. Cyf. Grid / Grid Ref - SH5570

0 30 60 120 Medr / metre

© Hawlfraint y Goron a hawliau ddata 2021 Arolwg Ordnans 100023387
© Crown copyright and database rights 2021 Ordnance Survey 100023387

N W E S

**O ran cais gan Gyngor Cymuned Pentir i gofrestru llwybr troed cyhoeddus ger Neuadd Treborth.**

Gwnaf i, Rhodri Llewelyn o 211 Ffordd Penrhos, Bangor, Gwynedd, LL57 2DJ y datganiad hwn i gefnogi cais i gofrestru llwybr troed cyhoeddus fel y disgrifir uchod a dywedaf fel a ganlyn:

1. Rwy'n gyfarwydd â'r llwybr a hawlir, fel y dangosir gan linell goch ar y cynllun.

2. Fel arfer byddaf yn cerdded y llwybr o gyfeiriad yr ardd botanegol Treborth ac yna yn parhau i fynd i'r dde ychydig gan fynd dros bont rheilffordd. Ar ôl mynd dros y bont, mae'r llwybr yn parhau i fynd heibio'r tai ar y chwith gan deithio yn eithaf agos i flaen yr hen ysgol Treborth ac mae'r llwybr yn troi ychydig i'r dde. Mae llwybr yn dilyn y lon fach tarmac sydd yn parhau tuag at lon fawr Treborth.

3. Rwyf wedi bod yn defnyddio'r llwybr yn achlysurol ers 40 mlynedd pan o ni'n blentyn yn 1977 . Roeddwn yn byw yn Mangor adeg hon. Mi wnes i ddefnyddio'r llwybr fwyaf pan symudais o Felinheli yn ôl i Fangor a cychwynnais i ddefnyddio'r llwybr yn fwy aml eto yn 2017.

4. Yn ystod y cyfnod clo 2020, roeddwn yn defnyddio'r llwybr bron yn ddyddiol i bwrpasau hamdden i fynd am dro. Bydd fy nheulu yn mwynhau dod am dro gyda mi ffordd hon hefyd.

5. Byddaf yn hoffi gwneud cylchdaith yn defnyddio'r llwybr hon drwy gychwyn o fy nhu gan gerdded lawr Ffordd Penrhos i gyfeiriad yr Antelope ac yna drwy'r gerddi botanegol, heibio'r hen ysgol ac yna yn ôl drwy fynd lawr Lon Dywyll yn ôl adref.

6. Mae'r llwybr hon yn neis i wneud yn yr haf, felly byddaf yn ei ddefnyddio fwy aml yn ystod y misoedd cynnes ac llai yn ystod y gaeaf.


7. Nid oedd unrhyw drafferth mynd heibio ar y llwybr pan oedd yr adeilad yn agored fel ysgol ac yn berchnogaeth y Cyngor.

8. Mae gennyf gof o weld arwydd preifat yn rhywle ger y llwybr ac nid ydwyf yn sicr pryd wnaeth ymddangos neu le yn union mae'r arwydd.

9. Nid ydwyf wedi cael fy herio'n bersonol ond chafodd fy nhad a fy merch ei herio gan ddyn a oeddwn yn credu mae y perchennog newydd yr hen ysgol oedd hwn. Daeth allan a dechreuodd regi arnyn nhw fel oeddent yn cerdded ar y llwybr. Digwyddon hyn y llynedd ac ers hynny mae fy merch ac fy wraig wedi bod yn rhy ofn i basio ar y llwybr dim mwy. Mae fy nghymydog hefyd wedi ei chael ei herio.

**Dyddiad:** 5 Rhagfyr 2022

**Llofnod:** [redacted]




**Enw / Name:** Rhodri Llewel[redacted]

**Llofnod / Signature:** [redacted]

**Dyddiad / Date:** 5 Rhagfyr 2022

CYNGOR GWYNEDD COUNCIL

## Llwybr Cyhoeddus Honedig / Alleged Public Footpath
## Treborth, Bangor, LL57 2RX. Cyf. Grid / Grid Ref - SH5570

0 30 60 120 Medr / metre

© Hawlfraint y Goron a hawliau ddata 2021 Arolwg Ordnans 100023387
© Crown copyright and database rights 2021 Ordnance Survey 100023387

N W E S


**O ran cais gan Gyngor Cymuned Pentir i gofrestru llwybr troed cyhoeddus ger Neuadd Treborth.**

Gwnaf i, Sioned Elin Jones o 4 Goleufryn, Penrhosgarnedd, Bangor, Gwynedd, LL57 2LY y datganiad hwn i gefnogi cais i gofrestru llwybr troed cyhoeddus fel y disgrifir uchod a dywedaf fel a ganlyn:

1. Rwy'n gyfarwydd â'r llwybr a hawlir, fel y dangosir gan linell goch ar y cynllun.
2. Pan af am dro ar y llwybr troed yma, byddwn fel arfer yn cychwyn o fy nghartref ym Mhenrhosgarnedd i gyfeiriad Lôn Dywyll, croesi Lôn Treborth i geg y gyffordd lle mae'r llwybr troed yn cychwyn. Dwi'n parhau i lawr y lôn fach yma heibio Treborth Mews ac yna ymlaen tuag at glwb pêl-droed Penrhosgarnedd. Ar ôl mynd heibio i'r clwb pêl-droed ar y chwith, mae'r llwybr troed yn parhau rownd i fynd o flaen yr ysgol a rownd eto i fynd heibio rhai tai, gan anelu am y bont rheilffordd. O flaen hen ysgol Treborth, yn lle dilyn y tarmac ar y blaen, mae trac bach yn mynd trwy'r Coed, weithiau byddwn i'n mynd y ffordd yma hefyd yn enwedig i gael rhywfaint o gysgod ar ddiwrnodau poeth yr haf. Ar ôl hyn, byddwch yn cyrraedd y gerddi botanegol.
3. Dydw i ddim fel arfer yn gwneud cylchdaith ar fy nhaith neu mae'n tueddu i fod ychydig yn rhy hir i mi, felly rwy'n cadw i gerdded yno ac yn ôl.
4. Dechreuais ddefnyddio'r llwybr tua 25 mlynedd yn ôl tua 1997. Rwy'n cofio mynd a'r plant hyn yn y 'pushchair' ar y llwybr troed hwn ac wrth iddynt dyfu fyny byddwn yn mynd a nhw i'w gwersi nofio yn hen ysgol Treborth a hyfforddiant pêl-droed unwaith yr wythnos. Doedd dim parciau ym Mhenrhosgarnedd ar y pryd, felly braf oedd mynd ar y llwybr troed yma gyda'r plant.
5. Pan oedd y plant yn eu gwersi nofio, weithiau byddwn yn gyrru ac yn parcio'r car ac yn mynd am dro tra roedden nhw'n cael eu gwers. Roedd y pwll nofio yn weddol fach a dim llawer o le i eistedd a gwylio. Roedd y gwersi hyn ar ddydd Sadwrn.
6. Braf oedd cerdded y llwybr troed yn ystod misoedd yr haf a byddwn yn ei ddefnyddio'n amlach yn y misoedd hyn.
7. Wrth i'r blynyddoedd fynd yn eu blaenau dechreuodd bywyd fynd yn brysur a gyda gwaith, felly roedd gen i lai o amser i fynd am dro a bod ar y llwybr troed. Felly dim ond tua 1-2 gwaith y mis y gallwn i gerdded y llwybr troed hwn.
8. Tua amser covid, roeddwn i'n ei ddefnyddio'n amlach tua unwaith yr wythnos. Yna dechreuais glywed am bobl yn cael dipyn o drafferth gyda pherchnogion newydd Neuadd Treborth a sut y gallent fod yn eithaf bygythiol tuag at rai pobl. Ers clywed hyn dwi ddim wedi bod yn cerdded y llwybr ers sbel a phrysurodd bywyd.
9. Yr unig arwydd yr wyf yn cofio ei weld ar y llwybr troed oedd arwydd hawl tramwy cyhoeddus wrth ymyl y caeau ac sydd cyn i chi gyrraedd y clwb pêl-droed. Dydw i ddim yn cofio gweld unrhyw arwyddion eraill o gwmpas neu arwyddion i wneud i mi deimlo nad oeddwn i fod yno. Roedd yn teimlo'n gwbl naturiol cerdded y ffordd hon ac yn cymryd yn ganiataol mai llwybr cyhoeddus yw hwn.
10. Nid wyf erioed wedi cael fy herio'n bersonol am ddefnyddio'r llwybr troed.

**Dyddiad:**..31.10.22.........................

**Llofnod:**..[redacted]..............




Hawl tramwy cyhoeddus honedig / Alleged public right of way

Llwybrau troed cyhoeddus presennol / Existing public footpaths

Enw / Name: SIONED JONES

Llofnod / Signature [redacted]

Dyddiad / Date: 31 : 10 : 22

# Llwybr Cyhoeddus Honedig / Alleged Public Footpath
# Treborth, Bangor, LL57 2RX. Cyf. Grid / Grid Ref - SH5570

0 30 60 120 Medr / metre

© Hawlfraint y Goron a hawliau ddata 2021 Arolwg Ordnans 100023387
© Crown copyright and database rights 2021 Ordnance Survey 100023387

N W E S


**O ran cais gan Gyngor Cymuned Pentir i gofrestru llwybr troed cyhoeddus ger Treborth Hall.**

Gwnaf i, William Glyn Jones o 3 Coed y Maes, Penrhosgarnedd, Bangor, Gwynedd, LL57 2EJ y datganiad hwn i gefnogi cais i gofrestru llwybr troed cyhoeddus fel y disgrifir uchod a dywedaf fel a ganlyn:

1. Rwy'n gyfarwydd â'r llwybr a hawlir, fel y dangosir gan linell goch ar y cynllun.
2. Mae'r llwybr yn cychwyn o'r ffordd fawr ac yn mynd heibio maes carafanau Treborth Mews ar y dde. Parhewch ar hyd y trac gan fynd heibio i'r clwb pêl-droed ar y chwith. Mae'r trac yn arwain rownd i'r dde gan fynd heibio blaen hen ysgol Treborth. Mae trac bach tu ôl i'r coed ger hen ysgol Treborth, ond mae'r trac yma wedi gordyfu ers tro. Rwy'n gwybod am rai pobl sy'n ei ddefnyddio a minnau hefyd weithiau, ond rwyf yn mynd o flaen yr ysgol yn bennaf. Nid yw'r trac arall yn neis iawn yn y gaeaf. Oddi yma ewch ymlaen dros y bont a thrwy'r gerddi. O'r fan hon anelaf tuag at dafarn yr Antelope ac yn ôl drwy Lon Dywyll/Lon Mennai.
3. Rwyf yn wreiddiol o Sir Fôn a symudais i Benrhosgarnedd yn 1983. Pan ddechreuais i ddefnyddio'r llwybr mae'n rhaid mai dyna oedd pan gafodd fy hynaf ei eni yn 1991 a byddwn yn mynd a nhw y ffordd yma yn y 'pushchair'. Byddem yn aml yn mynd heibio'r ysgol, i lawr y track ac yn mynd i'r llyn bach ger y maes carafanau. Rwy'n cofio hyn yn dda gan y byddem yn mwynhau bwydo'r elyrch yma. Rwy'n siŵr y byddem yn cerdded ar y llwybr troed hwn tua dwywaith yr wythnos. Yn ystod y 10 mlynedd diwethaf, mae fy nefnydd wedi bod yn llai a byddwn yn ei ddefnyddio tua unwaith y mis.
4. Rwyf bellach wedi rhoi'r gorau i ddefnyddio'r llwybr troed ers tua blwyddyn, gan fy mod yn 83 oed ac mae fy mhengliniau wedi mynd yn ddrwg ac yn cyfyngu ar ba mor bell y gallaf gerdded.
5. Wrth i fy mhlant fynd yn hŷn, yn ogystal a mynd am dro yn rheolaidd, byddwn hefyd yn mynd a nhw i chwarae pêl-droed yng Nghlwb Pêl-droed Penrhosgarnedd.
6. Pan oeddem yn defnyddio'r llwybr troed, roedd yna amser pan oedd Neuadd Treborth yn dal yn ysgol ac o'm cof nid oes gan y prifathro Will Parry unrhyw broblemau gyda phobl yn cerdded heibio'r ysgol ac ni chafodd ei godi fel mater. Roeddwn i'n meddwl bod y ffordd hon yn gyhoeddus ac oherwydd hynny ni feddyliais erioed nad oedd hawl gennym i gerdded yno, roedd mor hawdd cerdded heibio.
7. Dydw i ddim yn cofio gweld unrhyw fath o arwyddion wrth gerdded y llwybr troed.
8. Nid wyf erioed wedi cael fy herio am ddefnyddio'r llwybr ac nid wyf wedi cyfarfod a pherchnogion newydd Neuadd Treborth, fodd bynnag rwyf wedi clywed bod llawer o bobl yn cael trafferth pasio ar y llwybr troed ac rwyf wedi cael gwybod y gall y perchnogion fod yn frwnt gyda'u geiriau.
9. Yn ystod y cyfnod pan oedd yn ysgol, roeddwn yn gweithio gyda'r cwmni 'telephones' ac yn gwneud gwasanaethau yn y tai a byddwn yn cael fy ngalw allan tua unwaith y flwyddyn. Roeddwn i'n gweithio gyda'r cwmni 'telephones' ers 1965 nes i'r ysgol gau. Gallwn yn hawdd yrru i'r ysgol y naill ffordd neu'r llall i gael mynediad i'r tai drws nesaf i'r ysgol. Er bod 'barrier' melyn wrth ymyl y bont reilffordd, nid oeddwn erioed wedi ei weld ar gau ac ni chefais erioed broblemau wrth yrru na cherddded heibio.

**Dyddiad:**....6/3/2023....................

**Llofnod:**..........[redacted]..........




Enw / Name:

Llofnod / Signature:

Dyddiad / Date:

# Llwybr Cyhoeddus Honedig / Alleged Public Footpath
## Treborth, Bangor, LL57 2RX. Cyf. Grid / Grid Ref - SH5570

0 30 60 120 Medr / metre

© Hawlfraint y Goron a hawliau ddata 2021 Arolwg Ordnans 100023387
© Crown copyright and database rights 2021 Ordnance Survey 100023387

**O ran cais gan Gyngor Cymuned Pentir i gofrestru llwybr troed cyhoeddus ger Treborth Hall.**

Gwnaf i, Ieuan Ellis o 12 Tregean, Penrhosgarnedd, Bangor, Gwynedd, LL57 2HR y datganiad hwn i gefnogi cais i gofrestru llwybr troed cyhoeddus fel y disgrifir uchod a dywedaf fel a ganlyn:

1. Rwy'n gyfarwydd â'r llwybr a hawlir, fel y dangosir gan linell goch ar y cynllun.

2. Mae'r llwybrau'n cychwyn o gyffordd yr A487. Dilynwch y trac i lawr heibio'r maes carafanau ar y dde. Mae'r trac wedyn yn parhau tuag at hen ysgol Treborth. Dyma lle mae'r llwybr troed yn mynd o flaen yr ysgol, dros y bont ac yn parhau tuag at y gerddi.

3. Dechreuais ddefnyddio'r llwybr troed am y tro cyntaf yn 1990 ac rwyf bellach wedi rhoi'r gorau i ddefnyddio'r llwybr ers mis Ebrill, 2021. Cyn i mi stopio y llynedd, byddwn yn cerdded y ffordd hon o gwmpas unwaith yr wythnos.

4. Rwy'n defnyddio'r llwybr at ddibenion hamdden ac yn aml mae fy ngwraig yn mynd gyda am dro ffordd hon.

5. Fel arfer wrth gerdded y llwybr, byddwn yn mynd i lawr y llwybr troed hon ac yn dod yr un ffordd yn ôl i fy nghartref ym Mhenrhos. Nid yw'r adeg o'r flwyddyn erioed wedi effeithio ar ba mor aml y byddwn i'n defnyddio'r llwybr troed chwaith.

6. Rwyf wedi sylwi ar arwydd yn dweud preifat o gwmpas ond holl rwy'n ei gofio yw bod un ger blaen y neuadd wrth ymyl y pegiau gwyn. Roedd yn lliw coch a gwyn. Nid wyf yn siŵr a yw'r arwydd hwn yn dal i fod yno nawr gan nad wyf wedi bod yno ers mis Ebrill, 2021. Rwyf wedi bod yn ymwybodol o'r arwyddion hyn ac wedi mynd heibio arwydd ar sawl achlysur heb gael fy herio o'r blaen. Mae'n rhaid bod yr arwyddion hyn wedi ymddangos yn ystod yr ychydig flynyddoedd diwethaf. Ni fu unrhyw rwystrau eraill, dim ond y giât ger man cychwyn y llwybr troed i atal ceir rhag gyrru i lawr y lôn a gall pobl gerdded heb unrhyw broblem.

7. Ym mis Ebrill, 2021 roeddwn yn mynd heibio i'r neuadd yn dod o gyfeiriad y gerddi a chefais fy stopio gan berchennog y neuadd gyda'i fab a dywedwyd wrthyf fod y llwybr yn breifat ac nad oedd gennyf hawl tramwy. Nid wyf erioed wedi cael fy herio cyn hyn.

**Dyddiad:**.........5/10/22.........

**Llofnod:**....[redacted]....

**O ran cais gan Gyngor Cymuned Pentir i gofrestru llwybr troed cyhoeddus ger Treborth Hall.**

Gwnaf i, ~~Richard~~ ROBERT. Evan Jones o Y Wenallt, Penrhosgarnedd, Bangor, Gwynedd, LL57 2NA y datganiad hwn i gefnogi cais i gofrestru llwybr troed cyhoeddus fel y disgrifir uchod a dywedaf fel a ganlyn:

1. Rwy'n gyfarwydd â'r llwybr a hawlir, fel y dangosir gan linell goch ar y cynllun.

2. Mae'r llwybr yn cychwyn o'r ffordd fawr A487 ac yn dilyn lôn fach sy'n mynd heibio fferm Treborth HALL a chlwb pêl-droed Penrhosgarnedd. Ymlaen heibio'r clwb pêl-droed ar y chwith, tuag at basio yn union o flaen hen ysgol Treborth a heibio'r tai tuag at yr hen bont rheilffordd. Bydd hwn yn mynd a chi i'r gerddi ac af i lawr y llwybr troed sydd yn mynd i'r chwith sy'n arwain at bont y Fennai.

3. Symudais yma tua 40 mlynedd yn ôl ac mae'n rhaid fy mod wedi dechrau defnyddio'r llwybr ar ddiwedd y 90au. Wnes i ddim defnyddio'r llwybr troed yn syth ar ôl cyrraedd yma. Cefais hyd i'r llwybr pan oeddwn yn mynd â'r ci am dro ac yn dod yn gyfarwydd a'r ardal. Cylchdaith fach braf oedd hon i fynd am dro gyda'r ci. Weithiau hefyd byddwn i'n defnyddio'r llwybr troed i fynd i nofio yn Neuadd Treborth.


4. Nid wyf yn defnyddio'r llwybr dim mwy gan nad yw fy ngolwg yn dda iawn. Y tro diwethaf i mi ddefnyddio'r llwybr oedd tua 3 blynedd yn ôl tua 2019/2020. Pan ddefnyddiais y llwybr troed, ni fyddai unrhyw dymor yn effeithio ar ba mor aml y byddaf yn ei ddefnyddio a byddwn yn sicr yn ei ddefnyddio tua unwaith y mis ac ar ôl i mi ymddeol tua unwaith yr wythnos.

5. Dwi'n cofio pan o'n i'n arfer ddefnyddio llwybr, dwi'n cofio cael dim trafferth mynd heibio ac weithiau dweud bore da a sgwrs gyfeillgar gydag athrawon ysgol Treborth oedd yn mynd heibio ar fy nhaith.

6. Yn ystod fy amser yn defnyddio'r llwybr troed, wnes i erioed sylwi a oedd unrhyw arwyddion yn dweud i beidio a cherdded y ffordd honno. Hefyd, nid wyf erioed wedi cael fy stopio am ddefnyddio'r llwybr, roedd yn teimlo'n gwbl naturiol cerdded ar hyd y llwybr troed hwn.

**Dyddiad:**.[redacted]

**Llofnod:**...............................5 - 10 - 2022....




Enw / Name: [redacted]

Llofnod / Signature: [redacted]

Dyddiad / Date: 5, 10, 2022.

# Llwybr Cyhoeddus Honedig / Alleged Public Footpath
## Treborth, Bangor, LL57 2RX. Cyf. Grid / Grid Ref - SH5570

0 30 60 120 Medr / metre

© Hawlfraint y Goron a hawliau ddata 2021 Arolwg Ordnans 100023387
© Crown copyright and database rights 2021 Ordnance Survey 100023387


**O ran cais gan Gyngor Cymuned Pentir i gofrestru llwybr troed cyhoeddus ger Treborth Hall, Treborth.**

Gwnaf i, Richard Williams o 20 Lon y Bryn, Bangor, Gwynedd y datganiad hwn i gefnogi cais i gofrestru llwybr troed cyhoeddus fel y disgrifir uchod a dywedaf fel a ganlyn:

1. Rwy'n gyfarwydd â'r llwybr a hawlir, fel y dangosir gan linell goch ar y cynllun.
2. Mae'r llwybr yn cychwyn ger y brifysgol ac yn parhau ymlaen dros yr hen bont reilffordd. O'r fan hon, gallwch unai fynd ar y ffordd darmac o flaen y tai ar y chwith neu ar y trac sy'n arwain drwy'r coed ar y dde. Fel arfer byddwn i'n mynd ar y trac sy'n rhedeg drwy'r coed ond os yw'n wlyb ac yn fwdlyd, byddwn yn cerdded ar y tarmac. Mae'r llwybr wedyn yn dod heibio o flaen Ysgol Treborth ac yna byddwch yn parhau i fynd heibio Clwb Pêl-droed Penrhosgarnedd. Mae'r llwybr yn parhau i lawr ychydig a byddwch yn gweld mynedfa y llwybr troed arall. O'r ffordd mae giât sydd wedi'i chloi ond mae man pasio ar yr ochr i gerddwyr. Mae'r ffordd yn parhau i'r brif ffordd sy'n gyfagos i hen dafarn y Drovers.
3. Dechreuais ddefnyddio'r llwybr am y tro cyntaf 30 mlynedd yn ôl ym meddwl yr 1980au. Byddwn yn defnyddio'r llwybr ddwywaith yr wythnos pan oedd fy mab yn chwarae pêl-droed yng nghlwb pêl-droed Penrhosgarnedd. Byddai'n cael hyfforddiant pêl-droed a gemau yno. Weithiau byddem yn defnyddio'r llwybr i fynd am dro hefyd a byddem yn mynd ddwywaith y mis i'r pwrpas yma.
4. Rwyf wedi rhoi'r gorau i gerdded y llwybr hwn ers misoedd bellach oherwydd ymddygiad perchnogion newydd Ysgol Treborth. Byddai'n well gennyf gerdded i ffwrdd o'r ysgol yn hytrach na chael trafferth mynd heibio. Mae'n rhaid fy mod wedi dechrau cerdded llai fel hyn pan oedd y perchnogion newydd wedi prynu'r lle.
5. Cefais fy herio am y tro cyntaf tua'r haf, 4 blynedd yn ôl. Mae'n rhaid bod hyn wedi digwydd yn ystod dechrau'r pandemig covid. Y perchennog newydd ysgol Treborth sydd wedi fy herio am ddefnyddio'r llwybr. Roedd y dyn hefyd yn fy ffilmio hefyd.
6. Rwy'n defnyddio'r llwybr hwn fel rhan o daith gerdded yr wyf yn hoffi ei gwneud a byddwn yn mynd gyda fy nheulu weithiau. Byddai'r daith gerdded hon fel arfer yn cychwyn o Eithiniog, drwy gaeau'r Brewer's, i lawr tuag at yr Antalope, drwy'r brifysgol ac heibio ysgol Treborth. Mae yna'n parhau lawr lôn yr ysgol nes cyrraedd ochr arall y ffordd fawr lle mae hen dafarn y Drovers. Mae hwn yn ymuno â llwybr troed arall, sy'n mynd i ochr y garej wrth Drovers. Daw'r llwybr troed yma allan ym Mhenrhosgarnedd. Weithiau byddem yn gofalu am gi ein mab pe bai i ffwrdd ac roedd yn braf cerdded â'r ci ar y dro hon.
7. Ar lôn yr ysgol mae giât sydd wedi ei chloi yn achlysurol, ond mae man pasio i gerddwyr. Ar y giât mae arwydd yn dweud 'Preifat'. Rwy'n meddwl bod yr arwydd 'Preifat' hwn ar gyfer pobl sy'n ceisio gyrru eu ceir i fyny'r lôn. I'm cof, nid oes unrhyw arwyddion eraill ar y llwybr.
8. Yn ystod y cyfnod pan oedd Neuadd Treborth yn ysgol, roedd y prifathro bob amser yn gefnogol ac yn groesawgar i bobl fynd a dod fel y mynnant. Gwnaeth hyn wneud i mi feddwl bod y lle hwn yn gyhoeddus a bod gennym yr hawl i fynd a dod fel y mynnem ac yn gallu parcio ein ceir yn ddidrafferth o flaen yr ysgol ar gyfer hyfforddiant pêl-droed a gemau.

**Dyddiad:**......22/8/22......

**Llofnod:**........[redacted]




Enw / Name: Richard Williams

Llofnod / Signature: [redacted]

Dyddiad / Date: 22/8/22

# Llwybr Cyhoeddus Honedig / Alleged Public Footpath
## Treborth, Bangor, LL57 2RX. Cyf. Grid / Grid Ref - SH5570

0 30 60 120 Medr / metre

© Hawlfraint y Goron a hawliau ddata 2021 Arolwg Ordnans 100023387
© Crown copyright and database rights 2021 Ordnance Survey 100023387

N W E S

**O ran cais gan Gyngor Cymuned Pentir i gofrestru llwybr troed cyhoeddus ger Treborth Hall.**

Gwnaf i, Deiniol Tegid o Craig y Gwynt, 21 Ffordd Crwys, Penrhosgarnedd, Bangor y datganiad hwn i gefnogi cais i gofrestru llwybr troed cyhoeddus fel y disgrifir uchod a dywedaf fel a ganlyn:

1. Rwy'n gyfarwydd â'r llwybr a hawlir, fel y dangosir gan linell goch ar y cynllun.

2. Mae'r llwybr yn cychwyn drwy fynd drwy'r gerddi tai gwydr a pharhau dros yr hen bont rheilffordd. Wrth i chi barhau yn syth gan fynd heibio'r tai ar y chwith, mae'r llwybr troed yn mynd o gwmpas yn arwain yn union o flaen hen ysgol Treborth. Oddi yma mae'r llwybr yn parhau ac yn troi ychydig i'r chwith ac yn dilyn y lôn fach i lawr at yr A487 gyferbyn y hen dafarn Drovers.

3. Dechreuais ddefnyddio'r llwybr tua 1983/86 pan ddechreuais yn y coleg ym Mangor.

4. Rwy'n dal i ddefnyddio'r llwybr heddiw a byddwn yn cerdded y ffordd hon o leiaf unwaith y mis.

5. Rwy'n defnyddio'r llwybr at ddibenion hamdden ac yn mwynhau mynd am dro o gwmpas i Borthaethwy.

6. Weithiau pan fyddaf yn defnyddio'r llwybr, byddwn yn defnyddio'r llwybr troed hwn o fy nghartref ac yn ôl yr un ffordd. Ar adegau eraill byddwn yn gwneud cylchdaith fach sydd fel arfer yn mynd o fy nghartref, ar y llwybr troed hwn tuag at lwybr arfordir Cymru a rhwng y ddwy bont ac yn ôl adref. Pan fyddaf yn mynd am dro ffordd hon, weithiau byddai fy ngwraig yn ymuno a mi.

7. Rwy'n gyson wrth ddefnyddio'r llwybr ac ni waeth pa adeg o'r flwyddyn effeithio ar fy nefnydd gan ei fod arwyneb caled da i'r llwybr, felly mi fyddaf yn ei ddefnyddio drwy gydol y flwyddyn.

8. Roedd yna amser pan na ddefnyddiais y llwybr troed a dyma pryd symudais o Fangor yn 1986 tan 1991. Pan symudais yn ôl i'r ardal, mi ddechreuais i ddefnyddio'r llwybr unwaith eto o gwmpas un waith pob 2 i 3 mis.


9. Yn fy amser yn cerdded y llwybr, nid wyf wedi gweld unrhyw arwyddion ar y llwybr.

10. Rwyf wedi cael fy herio am ddefnyddio'r llwybr gan un o berchnogion Neuadd Treborth, roedd hyn ar y 4ydd o Fai, 2020. Roedd hyn wedi i'w wneud mewn ffordd heriol tuag ataf. Rwy'n gwybod am bobl eraill sydd wedi cael profiad tebyg fel teulu ifanc sy'n byw yn yr un stryd a fy ffrindiau. Ar wahân i hynny, weithiau yn achlysurol mae giât ar gau o bryd i'w gilydd.

11. Pan oedd Neuadd Treborth yn ysgol, dydw i ddim yn cofio gael unrhyw drafferth yn cerdded y llwybr troed.

**Dyddi**[redacted]

**Llofnod:**.....10/10/2022........




**Enw / Name:** DEINIOL TEGID

**Llofnod / Signature** [redacted]

**Dyddiad / Date:** 10/10/2022

# Llwybr Cyhoeddus Honedig / Alleged Public Footpath
# Treborth, Bangor, LL57 2RX. Cyf. Grid / Grid Ref - SH5570

0 30 60 120 Medr / metre

© Hawlfraint y Goron a hawliau ddata 2021 Arolwg Ordnans 100023387
© Crown copyright and database rights 2021 Ordnance Survey 100023387

**Ynglŷn â chais gan Gyngor Cymuned Pentir i gofrestru llwybr troed ger Neuadd Treborth.**

Rwyf i, Alison Hughes, 11 Ffordd Cynan, Penrhosgarnedd, Bangor, Gwynedd, LL57 2NR yn gwneud y datganiad hwn i gefnogi'r cais i gofrestru llwybr troed yn unol â'r disgrifiad uchod a dywedaf fel a ganlyn:

1. Rwyf yn gyfarwydd â'r llwybr a hawlir, a ddangosir gan linell goch ar y cynllun.
2. Fel arfer byddaf yn cychwyn fy nhaith gerdded o fy nghartref ac yn mynd i gyfeiriad Ffordd Tŷ'n Clwt ac yna priffordd Treborth gan deithio i gyfeiriad Ffordd Caergybi. Ar ôl hyn, byddaf yn mynd ar hyd y llwybr cerdded trwy Erddi Botanegol Treborth a throi i'r chwith ychydig i fynd dros bont y rheilffordd nes troi rhywfaint i'r dde i lawr trac bychan a thrwy ychydig o goed. Mae'r trac yn mynd heibio hen ysgol Treborth ar y chwith. Rwyf yn parhau gan fynd yn syth heibio Clwb Pêl-droed Penrhosgarnedd ar y dde a heibio'r safle carafanau a'r maes golffio nes cyrraedd y briffordd ac yna byddaf yn mynd am adref.
3. Dechreuais ddefnyddio'r llwybr troed yn oddeutu 1991 pan anwyd fy merch hynaf. Rwy'n cofio mynd â'r pram y ffordd hon. Roedd yn drac tarmac i wthio'r pram ar ei hyd. Wrth i fy mhlant fynd yn hŷn, roedd yn fan diogel i ffwrdd o'r briffordd er mwyn iddynt allu cyd-gerdded â mi. Byddwn yn cerdded y llwybr hwn oddeutu un neu ddwy waith yr wythnos. Mae'r llwybr troed hwn hefyd ymysg ein hoff deithiau i fynd â'r ci am dro. Rwyf wastad wedi bod yn berchen ar gŵn a byddwn yn arfer mynd â nhw am dro'r ffordd hon.
4. Ers 1991, nid yw fy nefnydd i wedi newid ac rwy'n ei ddefnyddio'r un mor aml nawr. Clywais yn ddiweddar am rai sïon fod pobl yn cael eu hatal rhag defnyddio'r llwybr troed ac oherwydd hynny nid wyf wedi cerdded y llwybr ers tro. Mae'n siŵr mai llynedd oedd y tro diwethaf i mi ddefnyddio'r llwybr. Rwyf eisiau mwynhau fy nheithiau ac osgoi gwrthdaro hyd y galla i.
5. Byddwn i a fy merched yn cerdded y llwybr hwn yn aml yn ystod misoedd yr haf. Roedd y llwybr troed hwn hefyd yn llwybr hwylus, glân a chlir i fynd â'r ci am dro a gellid yn hawdd iawn ei wneud yn daith hirach trwy ei gysylltu â llwybrau eraill.
6. Roeddwn yn arfer bod yn swyddog o'r heddlu ac weithiau byddwn yn mynd i'r hen ysgol yn Nhreborth fel rhan o'm gwaith. Yn ystod fy ymweliadau, ni soniwyd am faterion tresmasu a phroblemau gyda phobl ar y llwybr troed, ac ni thynnwyd dim i'n sylw. Ymddengys bod yr ysgol yn eithaf hapus i weld pobl yn cerdded heibio.
7. Rwy'n cofio gweld arwydd ar y giât wrth ymyl y safle carafanau ond nid wyf yn sicr o'r geiriad. Rwy'n meddwl fod yr arwydd hwn yn ymwneud â phobl yn ceisio gyrru i lawr y lôn gan ei bod yn aml yn cael ei defnyddio fel lôn gefn.
8. Nid oes neb wedi fy herio i'n bersonol am ddefnyddio'r llwybr troed a chefais fy synnu i glywed nad oedd yn hawl tramwy cofrestredig, yn enwedig gan fod fy rhiant yng-nghyfraith wedi bod yn ei gerdded ers llawer hwy na mi. Roeddwn wedi cymryd ei fod yn llwybr cyhoeddus. Er na chefais erioed fy herio, rwyf wedi clywed am bobl eraill yn cael eu herio gan berchennog newydd Neuadd Treborth.

**Dyddiad:**

**Llofnod:**

**Ynglŷn â chais gan Gyngor Cymuned Pentir i gofrestru llwybr troed ger Neuadd Treborth.**

Rwyf i, Andrew Joyce, 13 Goleufryn, Penrhosgarnedd, Bangor, Gwynedd, LL57 2LY yn gwneud y datganiad hwn i gefnogi'r cais i gofrestru llwybr troed yn unol â'r disgrifiad uchod a dywedaf fel a ganlyn:

1. Rwyf yn gyfarwydd â'r llwybr a hawlir, a ddangosir gan linell goch ar y cynllun.
2. Fel arfer, byddwn yn dechrau wrth gerdded y llwybr troed i lawr yr allt o Benrhosgarnedd a throi i'r dde i gyfeiriad yr Antelope Inn. O fan hyn, byddwn yn cerdded ar y llwybr sy'n mynd i Erddi Treborth ac yn troi i'r chwith tuag at y trac athletau. Cyn cyrraedd y trac athletau, mae'r ffordd darmac yn troi i'r chwith i fynd dros bont y rheilffordd. Mae'r ffordd darmac yn mynd yn syth yn ei blaen cyn mynd heibio rhai tai ar y chwith a throi i'r dde o flaen hen ysgol Treborth. Ar adegau, rwyf wedi defnyddio'r trac oddi ar y ffordd sy'n mynd y tu ôl i'r coed, gan osgoi blaen yr ysgol cyn ailymuno a'r lôn darmac. Mae'r lôn darmac yn mynd yn ei blaen heibio Clwb Pêl-droed Penrhosgarnedd ar y dde; ymhellach ar hyd y trac, mae'r llwybr troed yn mynd heibio'r safle carafanau ar y chwith cyn cyrraedd croesffordd Ffordd Treborth.
3. Symudais i Benrhosgarnedd yn 2004, a dyma pryd yr wyf yn cofio fwyaf am ddefnyddio'r llwybr. Er gwaethaf hynny, mae gen i beth cof o fod ar y llwybr troed gyda fy mhlant cyn hynny. Rwy'n cofio 2004 yn dda, gan fy mod y mwynhau rhedeg yn ystod y cyfnod hwnnw ac arferwn ddefnyddio'r llwybr tua thair gwaith yr wythnos. Roedd yn gylchdaith 5km yr oeddwn yn mwynhau ei gwneud a byddai'n cymryd oddeutu 25 munud o'r tŷ.
4. Wrth i amser fynd yn ei flaen a minnau'n heneiddio trosglwyddais yn naturiol o redeg y llwybr i'w gerdded. Rwy'n meddwl mai tua deng mlynedd yn ôl dim ond tua 3 gwaith y flwyddyn yr arferwn ddefnyddio'r llwybr a byddwn fel arfer yn gwneud hynny yn ystod tywydd cynnes. Roedd hwn yn llwybr braf i'w gerdded yn hamddenol ac yn cymryd bron i awr i'w gerdded o fy nhŷ i.
5. Rwy'n dal i ddefnyddio'r llwybr heddiw, ond nid yn aml iawn - tua un neu ddwy waith y flwyddyn o bosib. Roedd cael fy herio wedi fy ngwneud yn llai awyddus i gerdded y llwybr troed.
6. Pan arferwn redeg ar hyd y llwybr, byddwn fel arfer yn rhedeg ar fy mhen fy hun, ond weithiau byddai ffrindiau'n ymuno â mi. Yn ystod yr amser y dechreuais gerdded y llwybr yn y blynyddoedd diwethaf, arferai fy ngwraig a fy mab ymuno â ni.
7. Rwy'n credu mai yn gynnar yn 2021 pan oeddwn yn cerdded y llwybr, ac wrth i ni fynd heibio'r hen ysgol, daeth rhywun yn ei arddegau allan o'r hen ysgol a dechrau ein herio am ddefnyddio'r llwybr troed. Roedd ganddo fwy nag un ci gydag ef ac roedd yn ein ffilmio, gan ddweud nad oedd hwn yn llwybr troed ac nad oedd gennym ganiatâd i gerdded ar eiddo preifat. Dywedais wrth fy ngwraig a fy mab y dylem ei anwybyddu a pharhau i gerdded am ei fod yn llwybr troed a bod hawl gennym i fod yna. Roedd y digwyddiad hwn yn frawychus, yn enwedig am fod fy mab yn ofni cŵn. Yn dilyn y digwyddiad hwn, cysylltais â'r Cynghorydd Menna Baines gan egluro beth oedd wedi digwydd ar hyn y credwn i oedd yn hawl tramwy cyhoeddus. Dim ond ar ôl siarad â'r Cynghorydd Baines y cefais syndod o ddarganfod nad oedd hwn yn llwybr troed go iawn ac roedd mynediad ar y llwybr troed yn broblem.
8. Pan ddefnyddiais y llwybr cerdded o'r blaen, nid oeddwn yn ymwybodol o unrhyw arwyddion yn yr ardal. Dim ond ar ôl cael fy herio, yn oddeutu 2021, y dechreuais sylwi ar rai arwyddion. Er fy mod yn ansicr, rwy'n meddwl fod yr arwyddion yn dweud rhywbeth am fod yn eiddo preifat.

**Llofnodwyd:**

**Dyddiad:**

**Ynglŷn â chais gan Gyngor Cymuned Pentir i gofrestru llwybr troed ger Neuadd Treborth.**

Rwyf i, Anne Elizabeth Jones, Bronwydd, Ffordd Bronwydd, Treborth, Bangor yn gwneud y datganiad hwn i gefnogi'r cais i gofrestru llwybr troed yn unol â'r disgrifiad uchod a dywedaf fel a ganlyn:

1. Rwyf yn gyfarwydd â'r llwybr a hawlir a ddangosir gan linell goch ar y cynllun.
2. Byddwn fel arfer yn defnyddio'r llwybr troed hwn fel rhan o gylchdaith. Mae fy nhaith yn cychwyn o fy nghartref ac yn mynd i lawr am Ffordd Bronwydd i fynd dros gamfa. Mae hyn yn ymuno â hawl tramwy sy'n croesi dau gae. Mae'r hawl tramwy hwn yn gorffen wrth y lôn fach a byddwn yn troi i'r chwith gan deithio i fyny'r lôn fach, heibio clwb pêl-droed Penrhosgarnedd. Ar ôl mynd heibio'r clwb pêl-droed, byddwn yn cerdded at yr hen ysgol a throi mymryn i'r chwith i fynd heibio blaen hen Ysgol Treborth. Ar y pwynt hwn, mae'r llwybr troed yn parhau ar lôn darmac sydd hefyd yn mynd heibio rhai tai ac yn parhau tua phont y rheilffordd. Ar ôl cyrraedd pont y rheilffordd, byddwn fel arfer yn parhau at lwybr arfordir Cymru a gwneud cylch yn ôl i gyfeiriad pont Britannia, yn ôl i Ffordd Bronwydd a chyrraedd yn ôl gartref.
3. Dechreuais ddefnyddio'r llwybr troed gyntaf ar ôl i ni symud yma oddeutu 45 mlynedd yn ôl yn 1976. Mae gen i atgofion da o ddefnyddio'r llwybr troed hwn gyda fy mhlant. Weithiau, byddai'r plant yn dod â'u beics gyda hwy gan fynd ar y trac arall trwy'r coed o flaen hen ysgol Treborth. Roedd hefyd yn un o'r llwybrau yr oeddem yn ei fwynhau fwyaf wrth gerdded y ci am ei bod yn gylchdaith hwylus o'n cartref. Byddwn yn defnyddio'r llwybr cerdded yn gyson trwy gydol y flwyddyn.
4. Byddwn fel arfer yn defnyddio'r llwybr troed oddeutu un neu ddwy waith y mis, ar y penwythnosau. Rwyf wedi clywed am bobl yn cael eu herio am ddefnyddio'r llwybr troed o flaen hen ysgol Treborth ac oherwydd hyn rwyf wedi rhoi'r gorau i ddefnyddio'r llwybr. Y tro diwethaf i mi gofio cerdded y llwybr oedd oddeutu dwy flynedd yn ôl, tua mis Ionawr.
5. Roeddwn yn defnyddio'r llwybr troed pan oedd dal ar agor fel ysgol ac yn ystod yr amser hwn, roedd penaethiaid a staff yr ysgol wastad yn groesawgar ac roedd yn berthynas gyfeillgar. Ni wnaeth yr ysgol erioed wneud i ni deimlo na ddyliwn fod yn cerdded y llwybr sy'n mynd heibio'r ysgol.
6. Wrth fynd am dro'r ffordd hon, byddai fy ngŵr neu fy wyrion weithiau'n ymuno â mi. Gan fod yna drafferthion wedi bod yn ddiweddar ar y llwybr troed, nid wyf yn teimlo'n gyfforddus i basio ar y llwybr, yn enwedig gyda fy wyrion.
7. Rwy'n cofio gweld rhai arwyddion o amgylch y lle. Roedd un arwydd yn dweud 'Ffordd Breifat', roedd hyn ar y giât ger Treborth Mews. Byddwn fel arfer yn croesi'r caeau ar yr hawl tramwy arall sy'n cwrdd â'r lôn hanner ffordd i fyny i'r hen ysgol. Ni fyddwn fel arfer yn gweld yr arwydd hwn wrth ddod o fy nghyfeiriad arferol ar draws y caeau. Credaf fod '*Private Road'* ar gyfer y ceir sy'n trio gyrru ar hyd y lôn ac nid y cerddwyr. Mae yna arwyddion '*Private'* eraill hefyd wrth ymyl blaen Neuadd Treborth. Maent wedi'u lleoli yma ac acw ac o liw coch a gwyn. Ymddangosodd yr arwyddion hyn oddeutu 5 mlynedd yn ôl. Nid oedd unrhyw arwyddion o'r fath yma pan ddechreuom ddefnyddio'r llwybr troed, dim ond y rhain sydd wedi ymddangos yn ddiweddar.
8. Nid oes neb wedi fy herio i'n bersonol am ddefnyddio'r llwybr troed, fodd bynnag, mae rhywun wedi herio fy ŵyr a'i ffrindiau, a dim ond 12 oed oedden nhw. Rwyf wedi clywed am y dyn oedd yn gwrthod gadael llonydd i bobl ddefnyddio'r llwybr troed ac y gall fod yn eithaf brawychus ac nid wyf eisiau wynebu unrhyw wrthdaro am ddefnyddio'r llwybr ac felly rwyf wedi rhoi'r gorau i'w ddefnyddio am y rheswm hwn. Mae'n daith gerdded hyfryd ac mae'n bechod colli'r llwybr hwn sy'n darparu cymaint o gysylltiadau i'r ardal megis llwybr arfordir Cymru.

**Dyddiad:**

**Llofnod:**

**Ynglŷn â chais gan Gyngor Cymuned Pentir i gofrestru llwybr troed ger Neuadd Treborth.**

Rwyf i, Daniel John Harris o Perfeddgoed Hall, Caerhun, Bangor, Gwynedd, LL57 4DS yn gwneud y datganiad hwn i gefnogi'r cais i gofrestru llwybr troed yn unol â'r disgrifiad uchod a dywedaf fel a ganlyn:

1. Rwyf yn gyfarwydd â'r llwybr honedig, a ddangosir gan linell goch ar y cynllun.
2. Mae'r llwybr yn cychwyn o fy nghartref, yn anelu am Ffordd Caernarfon a byddaf yn ymlwybro am Ffordd Treborth. Ar ôl y fan hon, byddaf yn cerdded ar hyd lôn fechan heibio'r maes golffio a'r llyn bach ar y chwith. Ewch yn eich blaen heibio giât sydd wedi'i chloi sy'n cynnig lle pasio i gerddwyr i'r ochr. Wrth i chi fynd i lawr y lôn, fe ddowch at hen ysgol Treborth, yn y fan hon mae'r llwybr yn parhau ar y darn tarmac o flaen yr ysgol a heibio 3 neu 4 o dai tuag at bont y rheilffordd. Ar ôl croesi pont y rheilffordd, mae'r llwybr troed yn parhau heibio caeau chwarae'r brifysgol ac i mewn i'r gerddi botanegol.
3. Dechreuais ddefnyddio'r llwybr troed gyntaf tua 30 mlynedd yn ôl, 1992. Rwy'n cofio'r amser hwn yn dda gan fy mod yn rhedeg llawer fel rhan o fy hyfforddiant ac roeddwn yn ei ddefnyddio'n rheolaidd o leiaf unwaith yr wythnos.
4. Rwyf yn dal i ddefnyddio'r llwybr nawr gan ei ddefnyddio oddeutu unwaith y mis i fynd â'r ci am dro. Weithiau byddwn yn mynd y ffordd hon gyda fy nheulu hefyd am ei fod yn le da i fynd â'r plant. Roedd hi'n braf mynd â'r plant y ffordd hon gan ein bod yn arfer eu pryfocio a dweud os oeddynt yn camfihafio y byddent yn cael mynd at y plant drwg i'r ysgol. Ar ôl cael fy aflonyddu'n ddiweddar, nid wyf yn defnyddio'r llwybr cymaint a byddaf weithiau'n defnyddio llwybr arall er mwyn osgoi blaen yr ysgol.
5. Yn ystod 30 mlynedd o ddefnyddio'r llwybr, nid wyf wedi gweld unrhyw arwyddion yno tan yn ddiweddar. Mae rhai arwyddion preifat wedi ymddangos yn ddiweddar gan y perchennog newydd. Cyn hyn, nid oedd unrhyw arwyddion fel hyn gan mai'r Cyngor oedd yn berchen arno ac nid oedd dim yno i wneud i mi feddwl nad oedd yn gyhoeddus.
6. Cefais fy herio am y tro cyntaf oddeutu 5 mlynedd yn ôl, yn ystod cyfnod yr haf. Wrth i mi fynd am bont y rheilffordd, daeth dyn o'r tu ôl i mi gan siarad gyda mi mewn modd ymosodol gan fwmian rhywbeth na ddylwn i fod yn cerdded y ffordd hon. Dywedais wrtho fy mod wedi bod yn cerdded fan hyn ers blynyddoedd. Daliais ati i gerdded a daliodd yntau ati i fy nilyn i lawr pont y rheilffordd, cafwyd ffrae ac roedd yn rhaid i mi ei rybuddio i beidio â dod yn rhy agos rhag ofn i fy nghi ei frathu. Nid oedd ganddo ddewis ond gadael i mi fynd yn fy mlaen. Ni wnaeth y digwyddiad hwn fy atal rhag defnyddio'r llwybr a chefais fy atal eto fis yn ddiweddarach, fodd bynnag nid oedd yn medru gwneud dim i fy atal i, felly mi es yn fy mlaen.
7. Rwyf hefyd yn ymwybodol o sawl person arall sydd wedi profi problemau wrth basio heibio ar y llwybr gan yr un dyn sydd wedi ceisio herio fy nefnydd i o'r llwybr.

**Dyddiad:**

**Llofnod:**

**<u>Ynglŷn â chais gan Gyngor Cymuned Pentir i gofrestru llwybr troed ger Neuadd Treborth.</u>**

Rwyf i, Natalie Ellis, 8 Dôl Hyfryd, Penrhosgarnedd, Bangor, Gwynedd yn gwneud y datganiad hwn i gefnogi'r cais i gofrestru llwybr troed yn unol â'r disgrifiad uchod a dywedaf fel a ganlyn:

1. Rwyf yn gyfarwydd â'r llwybr a hawlir, a ddangosir gan linell goch ar y cynllun.

2. Mae'r llwybr yn mynd trwy erddi Botanegol Treborth ac yn mynd yn ei flaen trwy wyro ychydig i'r chwith ac ymlaen at bont yr hen reilffordd. O'r pwynt hwn mae angen parhau yn syth ymlaen nes gweld trac sy'n mynd i'r dde neu ddal i fynd ymlaen tua'r ysgol. Byddwn yn cerdded heibio blaen yr ysgol ond weithiau byddwn hefyd yn defnyddio'r trac arall sy'n osgoi blaen yr ysgol. Wrth i mi ddechrau dod yn fwy ymwybodol o'r problemau rhwng pobl yn defnyddio'r llwybr a'r perchennog newydd, byddwn un ai'n ceisio cerdded heibio blaen yr ysgol yn gyflym neu fynd trwy'r coed ar y trac arall. Ar ôl mynd heibio blaen yr ysgol, mae'r llwybr yn mynd ar drac y mae modd gyrru cerbyd arno, gan fynd heibio clwb pêl-droed Penrhosgarnedd. Cadwch at y lôn hon, gan basio'r maes golffio ar y chwith tuag at briffordd Treborth. O'r fan hon byddwn yn dal i fynd at lwybr arall ar ochr arall y briffordd, sydd yn diweddu hanner ffordd i lawr Lôn Dywyll a byddwn yn cerdded yn ôl adref. Pan fyddaf yn defnyddio'r llwybr hwn, byddaf yn cychwyn ar naill ochr i'r llwybr troed yn ddibynnol ar sut rwy'n teimlo ar y diwrnod.

3. Rwyf wedi bod yn defnyddio'r llwybr troed hwn ers i mi fod yn 13/14 mlwydd oed yn 1986. Weithiau byddwn i a fy ffrindiau yn cerdded neu'n mynd ar ein beiciau i lawr y llwybr hwn pob dydd ar ôl ysgol ac weithiau'n mynd â'n bagiau gyda ni i gario bwyd cyn mynd i'r caeau chwarae. Yn ystod yr haf byddwn yn defnyddio'r llwybr hwn yn aml yn ystod cyfnod y gwyliau.

4. Cyn i mi orffen defnyddio'r llwybr troed, roeddwn yn ei ddefnyddio tua 2 i 3 gwaith yr wythnos, roedd yn daith hyfryd i fynd â'r ci am dro. Roedd yna ambell wythnos lle na fyddwn yn defnyddio'r llwybr gan fy mod yn mwynhau cerdded mewn mannau eraill weithiau. Roedd y llwybr troed hwn yn fy nghasgliad o lwybrau yn yr ardal leol i gerdded y ci.

5. Nid wyf wedi sylwi ar unrhyw arwyddion ar hyd y llwybr ac ni fyddaf byth yn meddwl chwilio am unrhyw arwyddion gan mai hwn yw fy llwybr cerdded arferol yr wyf wedi'i ddefnyddio ers sawl blwyddyn ac felly ni fyddwn yn cymryd sylw o unrhyw arwyddion. Ni wnaeth erioed groesi fy meddwl fod y llwybr troed hwn yn breifat ac roeddwn wedi synnu'n fawr i ddeall nad yw'n llwybr cyhoeddus.

6. Rwyf wedi rho'r gorau i ddefnyddio'r llwybr ers mis Ebrill, 2021 ar yr adeg y cyflwynais fy natganiad cyntaf i gefnogi'r achos. Mae hyn, a'r ffaith bod llawer o bobl leol wedi sôn fod y perchennog presennol wedi bod yn atal pobl rhag defnyddio'r llwybr troed a'u herio. Rwyf wedi clywed nad ydi o'n stopio pobl mewn modd cwrtais ac y gall bod yn eithaf ymosodol, ac am y rheswm hwn nid wyf yn teimlo'n ddiogel i gerdded heibio ac nid yw'n werth mynd i drybini wrth i mi geisio mwynhau mynd am dro. Er hyn, nid wyf wedi cael fy herio'n bersonol.

**Dyddiad:**

**Llofnod:**

**Ynglŷn â chais gan Gyngor Cymuned Pentir i gofrestru llwybr troed ger Neuadd Treborth.**

Rwyf i, R.J.Philips, Parciau, Penrhosgarnedd, Bangor, Gwynedd, LL57 2SX yn gwneud y datganiad hwn i gefnogi'r cais i gofrestru llwybr troed yn unol â'r disgrifiad uchod a dywedaf fel a ganlyn:

1. Rwyf yn gyfarwydd â'r llwybr a hawlir, a ddangosir gan linell goch ar y cynllun.
2. Mae'r llwybr troed yn cychwyn ger priffordd Treborth i lawr lôn fach sy'n mynd yn ei blaen heibio'r maes golffio ar y dde. Wrth i'r lôn fynd yn ei blaen, mae hen faes carafanau Treborth ar y dde ac nid nepell o fan hyn mae giât, lle mae'r arwydd TCC. Wrth i chi fynd heibio'r giât mae arwydd llwybr cyhoeddus ar y chwith. Wrth i'r llwybr barhau ymlaen, mae'r wyneb wedi torri ychydig ac yn anwastad ac wrth i'r llwybr fynd yn ei flaen gallwch weld clwb pêl-droed Penrhosgarnedd ar y chwith ond mae'r llwybr yn dal i fynd ymlaen gan droi ychydig i'r dde o flaen yr ysgol ac yna'n troi fymryn i'r chwith tuag at bont yr hen reilffordd. Mae hwn yn llwybr arall ger blaen yr ysgol y tu ôl i'r coed ac rwyf wedi defnyddio'r llwybr hwnnw o'r blaen hefyd, fodd bynnag, mae yn medru mynd yn fwdlyd o dan draed. Ar ôl croesi'r bont, mae llethr esmwyth ac mae'r llwybr troed yn arwain i erddi Treborth. Fel arfer, byddwn yn cerdded trwy'r gerddi ar y llwybr arfordir ac i gyfeiriad y bont grog ac yn ôl i fy nghartref trwy ystâd y Faenol. Mae hon yn gylchdaith 5-6 milltir ac yn llwybr da i fynd â'm ci egnïol iawn am dro.
3. Dechreuais ddefnyddio'r llwybr troed tua 40 mlynedd yn ôl, tua diwedd y 70au a dechrau'r 80au. Roeddwn yn 21 mlwydd oed ac arferwn gerdded y llwybr troed i gyrraedd yr ymarferion rygbi oedd yn cael eu cynnal yng nghaeau chwarae Treborth. Roedd yn haws cerdded y ffordd hon na mynd â'r car ac ymdopi â'r traffig a ddaeth yn sgil y 70au. Yn ogystal â mynd i'r ymarferion ar y llwybr troed hwn, byddwn hefyd yn mwynhau mynd am dro ar hyd y llwybr troed hwn a byddwn fel arfer yn ei ddefnyddio bob yn ail ddiwrnod.
4. Ar yr adeg, Will Parry oedd pennaeth ysgol anghenion arbennig Treborth ac ef oedd cadeirydd y clwb rygbi hefyd. Ni soniodd Will Parry erioed am y llwybr troed hwn a'i fod yn breifat ac nid yn hawl tramwy cyhoeddus ac ni soniwyd am y llwybr mewn unrhyw drafodaeth fel pwnc nac fel problem. Ni wnaeth erioed gwestiynu chwaith a ddylem ni fod yn cerdded heibio'r ysgol.
5. Mae fy nefnydd i o'r llwybr troed wedi newid llawer ac rwyf yn dal i'w ddefnyddio'r un mor aml bron iawn bob yn ail ddiwrnod, hyd nes y trafferthion diweddar gyda pherchnogion newydd Neuadd Treborth. Byddwn y defnyddio'r llwybr troed hwn ym mhob tywydd ac ar unrhyw amser o'r flwyddyn, byddai'n rhaid iddi fwrw eira trwm i effeithio ar fy nefnydd.
6. Roedd yna gyfnod o amser pan nad oeddwn yn defnyddio'r llwybr troed pan symudais o'r ardal ddiwedd y 1990au am tua 25 mlynedd. Rwyf yn gweithio yn niwydiant gorsafoedd pŵer niwclear ac wedi symud i lefydd megis Rwsia, yr Almaen a Hartlepool ac ati yn sgil fy ngwaith. Symudais yn ôl i Fangor yn 2012 a pharhau i ddefnyddio'r llwybr troed bron iawn bob diwrnod ers hynny.
7. Rwyf wedi cael fy atal tair gwaith rhag cerdded y llwybr troed. Cefais fy atal gyntaf oddeutu 4-5 mlynedd yn ôl yn gynnar ym mis Mawrth/Ebrill. Digwyddodd hyn ger pont yr hen reilffordd wrth i mi agosáu at erddi Treborth. Daeth dyn ataf mewn modd ymosodol ac nid oeddwn yn gwybod pwy oedd o ar y pryd. Dywedodd mai "Eiddo Preifat" oedd o gan geisio fy atal yn gorfforol rhag mynd heibio a cheisio fy nghael i droi am yn ôl. Dywedais, 'Rwyf wastad wedi cerdded y ffordd hon' ond roedd hynny i weld yn ei wneud yn waeth. Roedd y ddau ddigwyddiad arall yn debyg, fodd bynnag, cefais fy atal unwaith gan ddynes a ddywedodd rhywbeth tebyg. Y tro hwn, nid oeddwn am ffraeo, er nad oeddwn yn credu fod yr hyn yr oedd yn ei ddweud yn wir gan fy mod wastad wedi cerdded yna ac nid oes neb wedi dweud dim am broblem tan yn ddiweddar.
8. Rwyf wedi sylwi fod rhai arwyddion wedi ymddangos ar y llwybr troed hwn. Rwy'n cofio gweld rhai arwyddion ar y giât fetel pum bar sydd ar y trac wrth ymyl Treborth Mews lle arferai'r safle carafanau fod. Roedd yr arwydd hwn yn dweud TCC yn weithredol ac arwydd arall yn dweud Ffordd Breifat. Rwy'n meddwl fod hyn wedi ymddangos peth amser cyn i Covid ddigwydd. Nid wyf yn sicr ynghylch beth yw bwriad yr arwyddion hyn ond mae'n bosib ei fod er mwyn atal pobl rhag defnyddio'r llwybr troed. Rwyf wastad wedi cymryd y gall pobl gerdded y llwybr troed yn ddidrafferth, yn enwedig gydag arwydd llwybr cyhoeddus ar y chwith i'r trac ar ôl y giât sydd â'r arwyddion. Felly, roeddwn wedi cymryd y gallwn gerdded y trac cyfan ac ni chroesodd fy meddwl nad oedd yn gyhoeddus tan yn ddiweddar.

**Dyddiad:** **Llofnod:**

**I gefnogi Cyngor Cymuned Pentir i gofrestru llwybr cyhoeddus ger Neuadd Treborth, Treborth.**

Gwnaf I, Malcolm Rogers o Valwyn Cottage, Llandegfan, Menai Bridge, Anglesey, LL59 5TB y datganiad hwn mewn cefnogaeth i fy natganiad blaenorol dyddiedig 28/04/2021 a dwedaf fel y ganlyn:-

1. Cadarnhaf mai'r llwybr synhwyrol, y cyfeiriaf ato yn fy natganiad gwreiddiol, yw'r llwybr sy'n arwain heibio'r clwb pêl-droed, gan barhau ymlaen, drwodd i drac sy'n arwain drwy ran o goed, ac sy'n dod allan rhwng pont y rheilffordd a y tŷ olaf yn y rhes.

2. Ymddangosodd hysbysiadau cwrteisi ar y safle pan ddechreuais ddefnyddio'r llwybr troed tua 1989.

3. Roedd yr hysbysiadau cwrteisi wedi'u gwneud â llaw, yn bren ac roedd yn ymddangos bod yr ysgrifen wedi'i phaentio â llaw. Roedd y bwrdd ynghlwm ar goes pren wedi osod yn y ddaear. Roedd y geiriad yn ddwyieithog ac yn dweud rhywbeth fel 'Defnyddiwch lwybr llaw chwith i ffwrdd o dai''.

4. Roedd dau hysbysiad. Gosodwyd un ar yr ochr ddeheuol, lle mae'r trac yn cychwyn ger y clwb pêl-droed a gosodwyd yr hysbysiad arall ym mhen gogleddol agoriad y trac, a oedd rhwng pont y rheilffordd a'r tŷ pen. Gosodwyd y ddau yn y ddaear, ar y darn ynys o wair, wrth y maes parcio'r ysgol.

5. Credaf fod yr hysbysiadau cwrteisi hyn wedi'u trefnu a'u gosod gan yr ysgol. Nid atal pobl rhag cerdded y llwybr troed ar y tarmac oedd y rhybuddion hyn ond gwahoddiad i ddefnyddio'r trac drwy'r coed. Yn ystod y cyfnod hwn, roedd llawer o bobl yn gyrru drwy gyfleusterau parcio'r ysgol ac yn eu defnyddio ac roedd yr arwyddion hyn yn helpu i gadw pobl yn ddiogel wrth gerdded drwy gynnig llwybr arall. Yn fy marn i roedd yr hysbysiadau hyn am resymau diogelwch. Ond gan fod yr ysgol yn derbyn llwybr troed yn arwain heibio'r ysgol, y cyfan yr oeddynt yn ei wneud oedd helpu'r cyhoedd i ddefnyddio'r llwybr troed trwy gynnig llwybr amgen. Cefais fy synnu nad oedd hwn yn llwybr troed cofrestredig yn enwedig gan fod yr ysgol wedi gwneud i mi deimlo mai llwybr cyhoeddus oedd hwn.

6. Er gwaethaf cael yr opsiwn o ddefnyddio'r trac trwy'r coed, roedd rhai pobl yn dal i barhau ar y llwybr troed tarmac o flaen Neuadd Treborth. Gallai'r trac y tu ôl i'r coed fod yn fwdlyd yn aml a byddai angen esgidiau da. Roedd yn well gan bobl y llwybr troed tarmac yn gyffredinol.

7. Cadarnhaf nad oes neb o ysgol Treborth erioed wedi gofyn ar lafar i mi gerdded ar y trac drwy'r coed yn lle'r prif lwybr troed tarmac. Roeddwn yn teimlo bod yr hysbysiadau hyn yn gofyn ac yn fy annog i ddefnyddio'r opsiwn llwybr mwy diogel.

8. Rwy'n siŵr nad yw'r hysbysiadau hyn yno nawr, ac ni allaf fod yn sicr pryd y cawsant eu tynnu i lawr, fodd bynnag efallai eu bod wedi cael eu tynnu i lawr pan oedd Cymdeithas Marchogaeth i'r Anabl Treborth wedi cau.

**Dyddiad:**.........................................

**Llofnod:**..........................................

**MALCOLM ROGERS**

**O ran cais gan Gyngor Cymuned Pentir i gofrestru llwybr troed cyhoeddus ger Neuadd Treborth.**

Gwnaf i, Thomas Gribben o 3 Tŷ Ysgol, Coed Menai, Treborth, LL57 2RX y datganiad hwn i gefnogi cais i gofrestru llwybr troed cyhoeddus fel y disgrifir uchod a dywedaf fel a ganlyn:

1. Rwy'n gyfarwydd â'r llwybr a hawlir, fel y dangosir gan linell goch ar y cynllun.
2. Gall mynediad i'r llwybr troed gychwyn naill ai o'r Ardd Fotaneg neu Ffordd Treborth (A487). O Ffordd Treborth, mae'r llwybr troed yn parhau i lawr y lôn, heibio Treborth Mews ar y dde, cyn cyrraedd giât gyda mynediad ar yr ochr i gerddwyr. Yna mae'r llwybr troed yn parhau i lawr y lôn gan fynd heibio i Glwb Pêl-droed Penrhosgardnedd ar y chwith. Oddi yma mae'r llwybr troed yn parhau i ddilyn y lôn, heibio blaen Neuadd Treborth (yr hen ysgol) ac yna'n mynd heibio'r tai; fy un i yw rhif 3. Mae'r llwybr troed wedyn yn parhau i ddilyn y lôn, dros yr hen bont rheilffordd ac i Erddi Botaneg Treborth. Ar y chwith mae'r trac athletau. Mae'r llwybr troed yn arwain drwy'r Ardd Fotaneg ac yn gwneud ei ffordd i Menai Bridge.
3. Symudais i 3 Ty Ysgol, Coed Menai tua Awst/Medi 2014. Dyma'r amser pan brynodd y teulu Margetson Neuadd Treborth hefyd, Ysgol Treborth yn flaenorol. Cyn gynted ag yr oeddent wedi symud i mewn, sylweddolais yn syth eu bod yn stopio pobl oedd yn mynd heibio ar y llwybr troed ac unrhyw un a geisiodd ymweld â'r pentref. Yn anffodus, arweiniodd ymddygiad Mr Margetson nid yn unig at atal pobl ar y llwybr troed ond hefyd heriodd bobl oedd yn byw yn y pentref ac gwesteion a oedd yn ymweld. Rwyf wedi cael ffrindiau wedi'u herio gan Mr Margetson am geisio ymweld â'm tŷ.
4. Dechreuais ddefnyddio'r llwybr yn 20 oed pan symudais i Fangor yn 2003. Fel yr wyf wedi'i wneud ers cyrraedd yma, rwy'n dal i ddefnyddio'r llwybr bob dydd. Dyma'r ffordd gyflymaf a mwyaf effeithlon o gyrraedd fy nhŷ ac oddi yno. Cyn i mi symud i 3 Ty Ysgol, Coed Menai, roeddwn yn byw ar fferm Treborth Hall, lle roeddwn hefyd yn defnyddio'r llwybr troed yn ddyddiol i fynd â'm cŵn am dro. Pan symudais i, roeddwn i'n parhau i gerdded y llwybr troed ac yn stopio'n rheolaidd i sgwrsio gyda fy nghymdogion blaenorol yn Nhreborth Mews pan oeddwn i'n mynd â'r cŵn am dro ar y llwybr troed.
5. Ar adegau rwy'n mwynhau cerdded ar y llwybr troed gyda fy mhlant, ffrindiau a theulu. Mae'r llwybr yn cael ei ddefnyddio gan lawer o bobl gyfeillgar, cerddwyr cŵn a llawer o aelodau'r gymuned sy'n mynd â'u plant i Glwb Pêl-droed Penrhosgarnedd drws nesaf i Neuadd Treborth.
6. Rwyf wedi gweld llawer o arwyddion bygythiol ac anghyfreithlon yn cael eu gosod ar y llwybr troed er enghraifft wrth y gât gyntaf roedd arwydd 'Cŵn Rhydd Peryglus' wedi'i osod ar yr hawl tramwy cyhoeddus cofrestredig. Cafodd hwn ei dynnu gan y Cyngor yn 2019 ac yna gosododd perchennog Neuadd Treborth ef ar y giât wrth ymyl yr ysgol. Yn ystod 2019, gosodwyd yr arwyddion " PREIFAT" ar y llwybr troed yn 2019.
7. Ar ochr Gerddi Botaneg y llwybr troed wrth ymyl y trac athletau, mae arwydd yn dweud 'Mynediad i'r Ysgol a Fferm Treborth yn Unig" (Gweler y llun atodedig). Mae hyn yn gwneud i mi gredu bod yn rhaid bod yna hawl tramwy i fynd lawr ein tai yn flaenorol.
8. [redacted] Roedd fy ffrindiau a phobl rwy'n eu hadnabod o'r Gerddi Botaneg yn arfer cerdded i lawr y ffordd hon, ond oherwydd ymddygiad y Teulu Margetson, nid ydynt am gerdded i lawr yma dim mwy.
9. Yn fy amser yn byw yn 3 Tŷ Ysgol, rwyf wedi cael profiadau positif a chyfeillgar gyda phobl yn pasio ar y llwybr troed, llawer ohonynt nad oeddwn i erioed wedi cwrdd â nhw o'r blaen. Rwy'n eu gweld yn cerdded heibio fy nhŷ. Mae pawb yn ymddangos yn weddus, yn achosi dim niwed a mwynhau y llwybr cerdded. Mae'r llwybr yn cael ei ddefnyddio gan deuluoedd gyda plant ifanc, cerddwyr cŵn a'r henoed. Mae llawer o blant wedi defnyddio'r llwybr fel ffordd o gerdded i Glwb Pêl-droed Penrhosgarnedd. Mae'n lle i'r gymuned gyfan ei fwynhau. Byddai fy ffrindiau JP a Fiona sy'n byw yn Treborth Mews yn aml yn mynd â'u ci am dro ar y llwybr troed hwn ac ar eu ffordd, byddent yn stopio ac yn sgwrsio â ni bron bob nos. [redacted]

10. Roedd un her rwy'n ei chofio'n arbennig; dyma pryd hen ddynes sydd efo clyw byddar yn cerdded ar y llwybr troed pan heriodd mab perchnogion Neuadd Treborth, James Margetson hi am ddefnyddio'r llwybr. Digwyddodd hyn o flaen fy nhŷ. [redacted]

Llofnod:................................................

Dyddiad:...............................................



**O ran cais gan Gyngor Cymuned Pentir i gofrestru llwybr troed cyhoeddus ger Neuadd Treborth.**

Gwnaf i, Keith M Jones o 1 Bron y Graig, Ty'n Lon, Treborth, Bangor, Gwynedd, LL57 2NJy datganiad hwn i gefnogi cais i gofrestru llwybr troed cyhoeddus fel y disgrifir uchod a dywedaf fel a ganlyn:

1. Rwy'n gyfarwydd â'r llwybr a hawlir, fel y dangosir gan linell goch ar y cynllun.
2. Wrth gerdded y llwybr troed, byddwn fel arfer yn cychwyn o fy nghartref ac yn cerdded i lawr y ffordd fawr ac ar y palmant, heibio cyffordd Stermat a throi i'r chwith ar gyffordd i gerdded i lawr lôn. Rwy'n mynd heibio i'r hen faes carafanau a Treborth Mews nes cyrraedd giât ar glo ar yr ochr chwith. Rwy'n cerdded rownd y bwlch ar gyfer cerddwyr i'r chwith ac yn dal i fynd i lawr y lôn. Yn fuan ar ôl mynd heibio'r giât, mae mynedfa ar y chwith lle mae'r llwybr cyhoeddus arall yn ymuno â'r lôn. Dydw i ddim yn dueddol o ddefnyddio'r llwybr hwn gan nad yw'r ffermwr yn awyddus i gŵn fynd i lawr y llwybr troed a hefyd nid yw'n braf iawn dan draed. Wedi mynd heibio'r fynedfa fechan yma, dwi'n parhau lawr y lôn nes mynd heibio clwb pel droed Penrhosgarnedd ar y chwith. Rwy'n cerdded i mewn i ardal yr ysgol ac yn parhau i ddilyn y lôn trwy flaen yr ysgol a heibio rhai tai. Nid yw'r tai hyn yn hen iawn ac mae'n rhaid eu bod wedi'u hadeiladu pan oeddwn yn blentyn. Er hyn dydi o flaen yr ysgol ddim wedi newid rhyw lawer. Ar ôl fan hyn dwi'n parhau i lawr y lôn dros bont y rheilffordd ac i mewn i erddi Treborth. Ar ôl i'r brifysgol ddod, tyfodd y lle mewn poblogrwydd. Weithiau, dwi'n gwneud fy ffordd i'r antelop ac yn ôl neu am dro hirach yn dibynnu i ble roeddwn i eisiau mynd.
3. Dechreuais ddefnyddio'r llwybr troed am y tro cyntaf pan oeddwn yn blentyn yn yr ysgol uwchradd tua 1953. Pan oeddem yn blant, doedd dim ceir na thechnoleg a threuliais y rhan fwyaf o'n hamser yn cerdded y llwybrau troed drwy'r amser a byddwn ar y llwybr troed hwn bron yn ddyddiol yn sicr pob wythnos. Y llwybr hwn yn arbennig, byddem yn cerdded ar y llwybr troed i fynd dros y caeau fferm ger yr ysgol i fynd i helpu hel tatws. Byddem hefyd yn defnyddio'r llwybr troed i fynd i fyny i Bont Menai draw i Ynys Môn i fynd i'r siopau gan nad oedd unrhyw siopau yn Nhreborth.
4. Wrth i mi fynd yn hŷn, defnyddiais y llwybr troed i fynd â'm plant am dro, fy wyrion ac wyresau am dro a hefyd i fynd â'r ci am dro. Weithiau byddwn yn cerdded ar y llwybr troed yma i fynd i'r Antelope Inn am beint ac roedd yn ffordd saff o gerdded adref hefyd. Byddwn yn defnyddio'r llwybr troed fwy nag unwaith yr wythnos.
5. Pan oeddwn yn blentyn, nid oedd gan yr ysgol broblem gyda ni yn cerdded ar y llwybr troed ac yn mynd heibio i'r ysgol. Roedd yr ysgol yn rhan fawr o'r gymuned ac fe sicrhaodd y prifathro William Parry fod yr ysgol yn rhan o gymdeithas. Byddai'n trefnu gemau pêl-droed rhwng plant yr ardal a phlant yr ysgol, dwi'n cofio chwarae yn y gemau yma. Byddai hefyd yn trefnu gemau i'r staff gydag aelodau o'r gymuned fel merched yn erbyn y dynion. Roedd yn gymuned lle roedd pawb yn adnabod pawb, awyrgylch cyfeillgar a doedd neb byth yn gwneud i mi deimlo na dweud unrhyw beth a oedd yn gwneud i mi feddwl na ddylwn fod yn cerdded y llwybr troed.
6. Dydw i ddim yn cofio gweld unrhyw arwyddion yn dweud nad oedd yn llwybr cyhoeddus. Yn ystod yr amser y cafodd ei werthu, y cyfan dwi'n cofio ei weld oedd ffens herras o amgylch adeilad yr hen ysgol ei hun gydag arwydd eiddo preifat ynghlwm wrth y ffens.
7. Yn ystod y cyfnod lle roedd mwy o geir ar y ffordd a gosodwyd giât ger gerddi Treborth i atal pobl rhag gyrru i lawr a defnyddio'r lôn fel llwybr byr. Roeddwn hefyd yn un o'r bobl hynny a oedd yn berchen ar gar ac yn cymryd llwybr byr fel hyn o bryd i'w gilydd. Y giât yno i atal gyrwyr, ond er gwaethaf hyn roedd y giât bron bob amser ar agor. Ni chafodd y giât hon ei chloi erioed ac roedd at ddiben ceir yn unig. Mae yna hefyd giât arall i lawr ger Treborth Mews sydd wedi ymddangos yn ddiweddar ac mae'r giât yma hefyd wedi ei chloi. Fodd bynnag, mae man pasio i gerddwyr i'r ochr.
8. Rwyf wedi cael fy herio o'r blaen gan ddyn na welais erioed o'r blaen tan y digwyddiad hwn. Dwi'n meddwl bod y dyn yma wedi dod allan o Neuadd Treborth a dweud rhywbeth fel 'This is private property' mewn ffordd ymosodol. Tybiais fod yn rhaid mai hwn yw perchennog newydd yr hen ysgol. O'm rhan i, mae bob amser wedi bod yn llwybr troed cyhoeddus ac mae pobl wedi ei ddefnyddio erioed cyn iddo ddod. Yr oedd hefyd wedi bod

yn dawel yno am amser maith o'r pryd y cafodd ei chau nes ei werthu. Cefais fy syfrdanu braidd gan y cyfarfyddiad hwn, fod y dyn hwn yn ceisio fy atal rhag cerdded ar y llwybr troed ar ôl fy nifer o flynyddoedd o ddefnydd o'r llwybr troed. Mae'n rhaid bod hyn wedi digwydd rhywbryd cyn i mi roi'r gorau i ddefnyddio'r llwybr troed. Wnes i ddim rhoi'r gorau i ddefnyddio'r llwybr troed am y rheswm hwn oherwydd rwyf wastad wedi meddwl ei fod yn llwybr cyhoeddus.

Llofnod:……………………………………

Dyddiad:……………………………………


**O ran cais gan Gyngor Cymuned Pentir i gofrestru llwybr troed cyhoeddus ger Neuadd Treborth.**

Gwnaf i, Eleri Owen o Cae Ffynon, Parc Victoria, Bangor Gwynedd y datganiad hwn i gefnogi cais i gofrestru llwybr troed cyhoeddus fel y disgrifir uchod a dywedaf fel a ganlyn:

1. Rwy'n gyfarwydd â'r llwybr a hawlir, fel y dangosir gan linell goch ar y cynllun.
2. Pan fydda i'n defnyddio'r llwybr, byddwn fel arfer yn cychwyn o Lôn Dywyll ac yn torri trwodd gan ddefnyddio llwybr troed arall gan fynd heibio hen dafarndai'r Drovers. O'r fan hon byddwn yn croesi Ffordd Treborth ac i mewn i gyffordd fach i lawr lôn fach. Wrth i mi gerdded i lawr y lôn rwy'n pasio llyn bach i'r chwith i mi ac yn mynd heibio i hen faes carafanau'r dde a'r maes golff. Mae'r lôn yn mynd yn syth gan basio clwb pêl-droed Penrhos i'r chwith ac mae'r lôn yn parhau i dir yr ysgol gyda thŷ'r ysgol ar y dde. Parhewch i ddilyn y lôn heibio blaen yr ysgol drwodd nes croesi'r bont rheilffordd i erddi Treborth a'r trac athletau ar y chwith.
3. Fel arfer, byddwn yn mwynhau gwneud y llwybr troed hwn fel rhan o gylchdaith, gan anelu drwy'r gerddi tuag Bont Mennai at yr Antelope Inn a gwneud fy ffordd yn ôl adref. Ar ein taith, byddem weithiau'n mynd i lawr at y llyn bach ac yn bwydo'r hwyaid ar ein ffordd rownd ond rŵan mae wedi ei ffensio ffwrdd.
4. Dechreuais ddefnyddio'r llwybr am y tro cyntaf 43 mlynedd yn ôl yn 1980. Wrth i'r blynyddoedd fynd heibio, roeddwn yn defnyddio'r llwybr troed hwn bob nos yn yr haf gan ei fod yn daith gerdded hyfryd i'w wneud. Symudon ni ychydig ymhellach o'r llwybr troed i Fangor uchaf yn 2013 ac roeddwn i'n ei ddefnyddio llai ar ôl hynny o gwmpas unwaith yr wythnos. Byddwn hefyd yn mynd â fy mab i hyfforddiant pêl-droed o gwmpas unwaith yr wythnos ar Dydd Sadwrn ffordd hyn a byddwn hefyd yn cerdded i weld fy ffrind oedd yn byw yn un o'r tai drws nesaf i'r ysgol. Roedd yn daith gerdded hyfryd i'w gwneud.
5. Roedd fy ngŵr yn arfer gweithio yn yr ysgol ac yn ystod y cyfnod hwn nid oedd gan yr ysgol erioed unrhyw broblemau o ran pobl yn cerdded y llwybr troed. Allan o Wil Parry Williams, Dafydd Evans, John Grisdale a Sion Jones, ni ddywedodd unrhyw un am broblem o bobl yn defnyddio'r llwybr troed. Roedd yr ysgol yn rhan fawr o'r gymuned ac yn aml byddai staff a phobl a oedd yn cerdded ar hyd y llwybr troed yn dweud helo ac yn sgwrsio â phobl oedd yn cerdded heibio.
6. Dydw i ddim yn cofio gweld llawer o arwyddion gan na fyddwn fel arfer yn cymryd sylw i arwyddion ar daith rwyf wedi cerdded ers blynyddoedd lawer. Yr unig arwydd y gallaf ei gofio yw arwydd llaw ger Treborth Mews yn dweud rhywbeth fel llwybr troed ffordd hyn. Rwy'n meddwl ei bod yn ymddangos yn ystod yr amser y daeth yr achos hwn i fyny ac mae'n bosib bod rhywun wedi'i wneud i brofi pwynt. Nid oedd yn ymddangos yn broffesiynol nac yn swyddogol.
7. Rwy'n cofio dwy giât ar y llwybr troed un ger Treborth Mews sydd wedi ei chloi ond sydd hefyd â man pasio i bobl gerdded. Roedd giât arall hefyd ger pont y rheilffordd ar ochr gerddi Treborth. Ni chofiaf y giât hon yn cael ei chloi erioed a credaf ei bod yn cael ei gau i atal ceir rhag gyrru drwodd.
8. Dydw i ddim wedi cael fy herio i gerdded y llwybr troed er fy mod wedi clywed straeon yn mynd o gwmpas bod pobl wedi cael eu herio am ddefnyddio'r llwybr troed gan ddyn y tybir mai ef yw perchennog newydd neuadd Treborth. Cyn i mi glywed am y straeon hyn, roeddwn wedi dechrau mynd yno yn llai gan fy mod eisoes wedi cyfarfod â pherchennog newydd Neuadd Treborth. Roeddem yn mynd heibio ar y llwybr troed ac yn sylwi ar rywfaint o dipio anghyfreithlon a oedd wedi digwydd ar y lôn, felly o ran gwrteisi, bu i ni gnocio ar y drws i roi gwybod iddo. Nid oedd yn falch o'n cael ni'n cnocio ar y drws gan i ni ei ddal ar amser gwael. Oherwydd ei ymateb, ni fu i ni ddefnyddio'r llwybr troed eto.

**Dyddiad:**...2/4/23..........................

**Llofnod:**....[redacted]...................




**Enw / Name:** Eleri Owen

**Llofnod / Signature:** [redacted]

**Dyddiad / Date:** 2/4/23

CYNGOR GWYNEDD COUNCIL

# Llwybr Cyhoeddus Honedig / Alleged Public Footpath
## Treborth, Bangor, LL57 2RX. Cyf. Grid / Grid Ref - SH5570

**O ran cais gan Gyngor Cymuned Pentir i gofrestru llwybr troed cyhoeddus ger Neuadd Treborth.**

Gwnaf i, Margaret Jones o 40 Bro Llewelyn, Llandegfan, Menai Bridge, Anglesey, LL59 5UP y datganiad hwn i gefnogi cais i gofrestru llwybr troed cyhoeddus fel y disgrifir uchod a dywedaf fel a ganlyn:

1. Rwy'n gyfarwydd â'r llwybr a hawlir, fel y dangosir gan linell goch ar y cynllun.
2. Byddai fy nhaith gerdded yn cychwyn o fy nghartref, ac yna byddwn yn cerdded dros bont Menai ac yn troi i'r chwith i Feithrinfa Treborth. Ar ôl cerdded drwy'r meithrinfeydd, mae'r llwybr troed yn troi i'r chwith ger y trac athletaidd ac yna dros bont rheilffordd. Mae'r llwybr troed yn parhau ar y ffordd darmac heibio rhai tai a heibio blaen Neuadd Treborth. Oddi yma, mae'r llwybr troed yn parhau ar y ffordd darmac, gan fynd heibio clwb pêl-droed Penrhosgarnedd a pharhau'n syth gan fynd heibio'r hen faes gwersylla cyn i'r lôn gyrraedd cyffordd Ffordd Treborth. Mae'r llwybr troed yma'n rhan o gylchdaith, a dwi'n cerdded adref wrth gerdded ar y palmant yn Ffordd Treborth i'r Atelope Inn, dros y bont, ac yn ôl adref. Byddai'r gylched hon yn cymryd tua awr a hanner i ddwy awr.
3. Dechreuais ddefnyddio'r llwybr troed hwn am y tro cyntaf yn 2003/2004. Rwy'n cofio'r tro hwn yn dda gan mai dyma pryd y dechreuais weld fy mhartner, oedd yn byw ym Mhenrhosgarnedd am y tro cyntaf. Dyma pryd roeddwn i'n defnyddio'r llwybr troed tua 2-3 gwaith y mis.
4. Wrth i amser fynd yn ei flaen, dechreuais ddefnyddio'r llwybr troed yn amlach, tua unwaith yr wythnos, i fynd â'm ci am dro. Byddai fy mhartner yn ymuno â ni ar y teithiau cerdded hyn yn aml.
5. Tua 10 mlynedd yn ôl, mae gen i atgofion o gerdded mab fy mhartner i lawr y llwybr troed yma i gyrraedd Clwb Pêl-droed Penrhosgarnedd ar gyfer ei hyfforddiant. Fel arfer byddem yn cerdded, ond ar ddiwrnodau glawog byddem yn gyrru ac yn parcio yn yr ysgol.
6. Yn y blynyddoedd mwy diweddar, byddwn yn defnyddio'r llwybr tua dwywaith y mis. Lleihaodd fy nefnydd o'r llwybr troed yn y blynyddoedd diwethaf oherwydd i rywun oedd yn byw yn Neuadd Treborth ddechrau curo ar y ffenestri a gweiddi wrth i mi gerdded heibio ar y llwybr troed. Dechreuodd y curiadau hyn ar y ffenestr tua 5-6 mlynedd yn ôl.
7. Nid wyf yn defnyddio'r llwybr troed mwyach, fel y cefais fy herio tua 2 flynedd yn ôl. Dyn a ymddangosodd o unman wrth i ni gerdded heibio'r tŷ. Dywedodd rywbeth tebyg i hyn, Pe byddem yn deall mai eiddo preifat oedd hwn, dywedais nad oeddem yn gwneud unrhyw niwed, ac fe wnaethom barhau ar y llwybr troed. Cefais fy synnu o ddeall nad llwybr troed oedd y llwybr hwn mewn gwirionedd. Ni fu erioed broblem gyda cherdded y llwybr troed tan y pwynt hwn. Ar ôl hyn, doeddwn i ddim yn teimlo'n gyfforddus yn cerdded y llwybr, yn enwedig ar fy mhen fy hun.
8. Mae gen i rywfaint o gof o weld arwyddion ger blaen Neuadd Treborth yn dweud rhywbeth fel 'private property'. Mae'n rhaid bod yr arwyddion hyn wedi ymddangos tua'r amser y cefais fy herio cwpl o flynyddoedd yn ôl.

Llofnod:.................................................

Dyddiad:...............................................

**<u>O ran cais gan Gyngor Cymuned Pentir i gofrestru llwybr troed cyhoeddus ger Treborth Hall.</u>**

Gwnaf i, ~~Richard~~ ROBERT. Evan Jones o Y Wenallt, Penrhosgarnedd, Bangor, Gwynedd, LL57 2NA y datganiad hwn i gefnogi cais i gofrestru llwybr troed cyhoeddus fel y disgrifir uchod a dywedaf fel a ganlyn:

1. Rwy'n gyfarwydd â'r llwybr a hawlir, fel y dangosir gan linell goch ar y cynllun.

2. Mae'r llwybr yn cychwyn o'r ffordd fawr A487 ac yn dilyn lôn fach sy'n mynd heibio fferm Treborth HALL a chlwb pêl-droed Penrhosgarnedd. Ymlaen heibio'r clwb pêl-droed ar y chwith, tuag at basio yn union o flaen hen ysgol Treborth a heibio'r tai tuag at yr hen bont rheilffordd. Bydd hwn yn mynd a chi i'r gerddi ac af i lawr y llwybr troed sydd yn mynd i'r chwith sy'n arwain at bont y Fennai.

3. Symudais yma tua 40 mlynedd yn ôl ac mae'n rhaid fy mod wedi dechrau defnyddio'r llwybr ar ddiwedd y 90au. Wnes i ddim defnyddio'r llwybr troed yn syth ar ôl cyrraedd yma. Cefais hyd i'r llwybr pan oeddwn yn mynd â'r ci am dro ac yn dod yn gyfarwydd a'r ardal. Cylchdaith fach braf oedd hon i fynd am dro gyda'r ci. Weithiau hefyd byddwn i'n defnyddio'r llwybr troed i fynd i nofio yn Neuadd Treborth.


4. Nid wyf yn defnyddio'r llwybr dim mwy gan nad yw fy ngolwg yn dda iawn. Y tro diwethaf i mi ddefnyddio'r llwybr oedd tua 3 blynedd yn ôl tua 2019/2020. Pan ddefnyddiais y llwybr troed, ni fyddai unrhyw dymor yn effeithio ar ba mor aml y byddaf yn ei ddefnyddio a byddwn yn sicr yn ei ddefnyddio tua unwaith y mis ac ar ôl i mi ymddeol tua unwaith yr wythnos.

5. Dwi'n cofio pan o'n i'n arfer ddefnyddio llwybr, dwi'n cofio cael dim trafferth mynd heibio ac weithiau dweud bore da a sgwrs gyfeillgar gydag athrawon ysgol Treborth oedd yn mynd heibio ar fy nhaith.

6. Yn ystod fy amser yn defnyddio'r llwybr troed, wnes i erioed sylwi a oedd unrhyw arwyddion yn dweud i beidio a cherdded y ffordd honno. Hefyd, nid wyf erioed wedi cael fy stopio am ddefnyddio'r llwybr, roedd yn teimlo'n gwbl naturiol cerdded ar hyd y llwybr troed hwn.

**Dyddiad:**..[redacted]

**Llofnod:**..........5 - 10 - 2022....




Hawl tramwy cyhoeddus honedig / Alleged public right of way

Llwybrau troed cyhoeddus presennol / Existing public footpaths

Enw / Name: [redacted]

Llofnod / Signature:

Dyddiad / Date: 5, 10, 2022.

# Llwybr Cyhoeddus Honedig / Alleged Public Footpath
# Treborth, Bangor, LL57 2RX. Cyf. Grid / Grid Ref - SH5570

0 30 60 120 Medr / metre

© Hawlfraint y Goron a hawliau ddata 2021 Arolwg Ordnans 100023387
© Crown copyright and database rights 2021 Ordnance Survey 100023387